Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar

Bae'r Gorllewin

HM Inspectorate of Probation

March 2019

Cydnabyddiaeth:

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EM Yvonne McGuckian, a gefnogwyd gan dîm o arolygywr, yn ogystal â staff o'n timau gweithrediadau ac ymchwil. Roedd Arolygiaeth Prawf EM yn gweithio ar y cyd gydag arolygyddion o'r sectorau heddlu, iechyd, gofal cymdeithasol ac addys. Alan MacDonald yw Pennaeth Arolygiadau Tîm Troseddau Ieuenctid, yn gyfrifol am y rhaglen arolygu hon. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth helpu i gynllunio a chymryd rhan yn yr arolygiad; heb eu help a'u cydweithrediad, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl.

Noder bod yr enwau yn enghreifftiau ymarfer yr adroddiad wedi'u newid i amddiffyn adnabyddiaeth yr unigolyn.

© Hawlfraint y Goron 2019

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch iwww.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint o dan sylw.

Gellir lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Llawr 1af, Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Rhagair

Sefydlwyd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Bae'r Gorllewin (YJS) yn 2014, yn cyfuno gwasanaethau troseddau ieuenctid Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. Gwelwyd yn yr arolygiad ar y cyd bod y cyfuniad wedi'i weithredu yn wael ac nad oedd un o'r tri awdurdod lleol wedi cymryd cyfrifoldeb llawn am y gwasanaeth. Mae'r arolygiad hwn yn ganolog i nifer o'r problemau a nodir gennym yn yr adroddiad hwn.

Nid oes gan y Bwrdd Rheoli ddigon o ddealltwriaeth dda o'i rolau a'i gyfrifoldebau, ac nid yw'n gwerthfawrogi'n iawn yr anhawsterau lleol sydd gan y YJS yn darparu gwasanaethau o ansawdd da i blant a phobl ifainc. Mae'r anhawsterau hyn yn cynnwys gwaith partneriaeth sy'n anghyson, amrywiaeth mewn ansawdd gwaith achos a rheolaeth annigonol o'r gwasanaeth dydd-i-ddydd. O ganlyniad, nid oes gan staff y gefnogaeth sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau iawn i blant a phobl ifainc.

Mae'r Bwrdd wedi methu â gosod gweledigaeth a chyfeiriad clir am y gwasanaeth. Yn ei absenoldeb, mae rheolwyr gweithredol a staff yn gorfod ymdrin â phroblemau annisgwyl fel y maent yn codi ac yn ymateb i'r symptomau o broblemau systemig sylweddol. Y maes cryfaf o waith yw'r gwaith sy'n cael ei wneud i helpu plant a phobl ifainc i ymatal rhag droseddu, ond mae anghenion diogelwch a lles yn cael eu camfarnu yn aml. Mewn achosion lle mae gan blant a phobl ifainc orchmynion llys, mae'r gwaith o nodi, cynllunio, lleihau ac yn rheoli'r risg o niwed difrifol yn wael.

Mae gwaith partneriaeth, sydd ei angen i ddiogelu plant a phobl ifainc ag anghenion cymhleth, yn annigonol. Canfuom nifer o enghreifftiau lle yr oedd yn amhosibl i ddweud os oedd plant a phobl ifainc yn cael eu diogelu. Lle nodir problemau, nid yw'r gwasanaeth a'r partneriaid bob amser yn cymryd y camau sydd eu hangen i ddiogelu plant a phobl ifainc neu ddioddefwyr.

Canfuom rhai pocedi o ymarfer da, yn cynnwys gweithredu'r cynllun gwarediadau tu allan i'r llys, y ganolfan ymyrryd a'r rhaglen adeiladu sgiliau. Lle mae ymarfer da yn digwydd, mae hyn yn digwydd oherwydd ymdrechion unigol ac mae'n adeiladu ar gynlluniau a sefydlwyd cyn i'r gwasanaeth Bae'r Gorllewin gael ei gychwyn.

Rydym yn disgwyli i'r Bwrdd Rheoli weithredu yn gyflym i ymdrin â'r argymhellion a wnaed gennym i sicrhau bod y partneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd i gwrdd â'r anghenion diogelu a throseddu plant a phobl ifainc. Yn ddifrifol, mae angen i'r gwaith i gwrdd â chyfrifoldebau diogelu'r cyhoedd fod yn effeithiol.

Dame Glenys Stacey

Prif Arolygydd Prawf

Canfyddiadau cyffredinol

Yn gyffredinol, mae Bae'r Gorllewin wedi'i raddio yn: **annigonol**. Mae'r radd hon wedi'i phenderfynu drwy arolygu'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid ac ymyrryd yn gynnar mewn tri maes o'i waith. Gweler isod canfyddiadau ar gyfer y meysydd hynny.

Dulliau gweithredu'r sefydliad

Dyma ein canfyddiadau allweddol ynghylch dulliau gweithredu'r sefydliad:

- Mae llywodraethu ac arweinyddiaeth y gwasanaeth yn aneffeithiol. Nid oes gweledigaeth ar y cyd, dealltwriaeth o'i bwrpas neu strategaeth briodol i ddarparu gwasanaeth ansawdd-uchel, personol sy'n ymateb i blant a phobl ifainc.
- Nid oes un o'r tri awdurdod lleol sy'n rhan o'r gwasanaeth wedi cymryd cyfrifoldeb priodol am waith y gwasanaeth. Mae hyn wedi arwain at ansicrwydd ynghylch prosesau a dulliau, a darparu gwasanaeth anghyson.
- Nid yw'r Bwrdd Rheoli yn deall anghenion y grŵp penodol hwn o blant a phobl ifainc, y tîm staff neu'r gwasanaeth.
- Nid oes her neu atebolrwydd. Mae gan y Cadeirydd, wedi'i benodi yn ddiweddar, ddealltwriaeth gynyddol am ddiffygion y Bwrdd.
- Ar lefel strategol, mae trefniadau partneriaeth yn annigonol ac nad ydynt yn hwyluso darparu ymarfer effeithiol, yn enwedig mewn gwaith atal a gwaith ar ôl bod yn y llys.
- Mae pocedi o waith da, ond mae rhain yn aml oherwydd perthnasau personol wedi'u datblygu rhwng plant a phobl ifainc ac aelodau unigol o staff, ac nid o ganlyniad i weithio ar y cyd. Mae'r heddlu yn darparu cefnogaeth dda i'r gwasanaeth yn gweithredu'r cynllun gwarediad tu allan i'r llys.

Penderfyniadau'r Llys

Gweler isod ein canfyddiadau allweddol ynghylch penderfyniadau'r llys:

- Mae ffactorau diogelwch a lles a wynebir gan blant a phobl ifainc yn aml yn cael eu camfarnu a nad oes cynllunio amdanynt. Nid yw'r gwasanaeth a'r asiantaethau partneriaid bob amser yn cymryd camau gweithredu i leihau peryglon. Nid yw rhai plant a phobl ifainc yn ddiogel.
- Mae'r risg o niwed difrifol yn cael ei gamfarnu hefyd; mae cynllunio yn y maes hwn yn wael ac mae cyn lleied o sylw ar anghenion a dymuniadau dioddefwyr.
- Nid yw'r broses adolygu bob amser yn digwydd neu yn arwain at y newidiadau sydd eu hangen.
- Nid yw'r hyfforddiant staff ar gyfer defnyddio'r framwaith asesu AssetPlus wedi eu paratoi yn ddigon i ddefnyddio'r fframwaith yn dda. Mae hyn yn cael effaith ar ansawdd eu hasesiadau.

- Mae'r staff yn datblygu perthnasau da gyda phlant a phobl ifainc ac maent yn ymroddedig i'w cefnogi.
- Y meysydd cryfaf o ymarfer yw asesu a chynllunio wedi'u paratoi i helpu atal troseddu pellach.
- Darperir rhai ymyriadau da, yn cynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a rhai hyfforddiant galwedigaethol.
- Mae mynediad plant a phobl ifainc at wasanaethau iechyd yn wael.

Gwarediadau tu allan i'r llys

Dyma ein canfyddiadau allweddol ynghylch gwarediadau tu allan i'r llys:

- Mae'r gwaith ar y cyd rhwng y gwasanaeth a'r heddlu yn dda ac mae'n darparu cynllun gwarediad tu allan i'r llys effeithiol. Dangoswyd gwaith monitro gan yr heddlu fod 90% o blant a phobl ifainc a gafodd warediad tu allan i'r llys heb ddychwelyd i'r gwasanaeth.
- Mae'r asesu a'r cynllunio ar gyfer y grŵp hwn o blant a phobl ifainc yn dda.
- Mae'r risg o niwed difrifol yn cael digon o flaenoriaeth.
- Darprir ymyriadau i atal troseddu pellach fel a gynllunir.
- Nid yw'r gwaith ar y cyd gyda phartneriaid i gadw plant a phobl ifainc yn ddiogel yn ddigon da, ac er gwaethaf ymdrechion rhai rheolwyr achos, mae rhai dal mewn perygl.
- Mae'n achos pryder bod rhai plant mor ifanc â wyth mlwydd oed yn cael eu cyfeirio yn anghywir i'r cynllun atal rhag troseddu'r gwasanaeth. Mae gan y plant hyn anghenion diogelu na ddylai gael eu wynebu gan wasanaeth cyfiawnder troseddol.

Crynodeb o'r graddau

Gradd derfynol ar gyfer Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Bae'r Gorllewin	**Annigonol**

1	**Dulliau gweithredu'r sefydliad**	
1.1	**Llywodraethu ac Arwain**	**Annigonol**
1.2	**Staff**	**Annigonol**
1.3	**Gwasanaethau a phartneriaethau**	**Annigonol**
1.4	**Gwybodaeth a chyfleusterau**	**Annigonol**

2	**Penderfyniadau'r Llys**	
2.1	**Asesu**	**Annigonol**
2.2	**Cynllunio**	**Annigonol**
2.3	**Gweithredu a darparu**	**Annigonol**
2.4	**Adolygu**	**Annigonol**

3	**Gwarediadau tu allan i'r llys**	
3.1	**Asesu**	**Da**
3.2	**Cynllunio**	**Angen gwella**
3.3	**Gweithredu a darparu**	**Annigonol***
3.4	**Cydweithio**	**Rhagorol**

*Cyflanwyd doethineb proffesiynol o dan 3.3 oherwydd achosion yr oedd yn agos i'r ffin raddio. Roedd y perfformiad cyffredinol ar gyfer gweithredu a darparu felly wedi'i raddio yn annigonol.

Argymhellion

O ganlyniad i'n canfyddiadau arolygu, rydym wedi cyflwyno argymhellion yr ydym yn credu, os gweithredir, y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid ac ymyrryd yn gynnar Bae'r Gorllewin. Bydd hyn yn gwella bywydau plant a phobl ifainc sydd mewn cyswllt â'r gwasanaeth, a bydd yn amddiffyn y cyhoedd yn well.

Dylai Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Bae'r Gorllewin(WBYJEIS):

1. adolygu ac egluro ei rôl a'i swyddogaeth, yn cynnwys pob partner statudol ac yn gweithio mewn ffordd effeithiol i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithio i safon ddigonol
2. sicrhau fod asiantaethau partneriaid yn darparu cefnogaeth a gwasanaethau priodol
3. ddatblygu goruchwyliaeth effeithiol o waith y gwasanaeth ac her effeithiol i bartneriaid
4. ddatblygu cynllun clir i reoli gwahanu YOTs unigol o'r gwasanaeth i gyfyngu ar unrhyw effaith niweidiol ar rannau gweddill y WBYJEIS
5. ddarparu'r adnoddau a chefnogaeth i'r tîm rheoli i reoli'r gwasanaeth yn effeithiol
6. adolygu'r rôl a'r swyddogaeth y gwasanaeth atal.

Dylai Rheolwr y WBYJEIS felly:

7. sicrhau bod yr holl staff yn cael eu goruchwylio a'u rheoli yn briodol
8. adolygu'r strwythur rheoli a'r llinellau atebolrwydd

Dylai cyfarwyddwyr gwasanaethau plant:

9. fonitro ac adolygu pob achos lle mae materion ynghylch diogelwch a lles, yn sicrhau bod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud a bod gwaith ar y cyd yn digwydd fel y bo angen
10. wella'r ansawdd (ac ymwybyddiaeth gan staff) y systemau atgyfeirio er mwyn i blant a phobl ifainc dderbyn y gwasanaethau y maent eu hangen.

Dylai'r gwasanaethau addysg awdurdod lleol:

11. adolygu effeithiolrwydd protocoliau rhannu gwybodaeth i sicrhau bod gan yr holl ysgolion a gweithwyr yr wybodaeth y maent eu hangen i ddarparu cefnogaeth wedi'i theilwra i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifainc.
12. ddatblygu strategaethau effeithiol i annog plant a phobl ifainc sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio gwasanaethau yn eu hiaith sy'n well gennynt, ac i ddefnyddio, datblygu a chydnabod gwerth yr iaith fel sgil cyflogaeth.
13. ddatblygu strategaeth lythrennedd a rhifedd i gefnogi plant a phobl ifainc i ddatblygu'r sgiliau hyn i wella'r posibiliad o ymataliad.

Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABMUHB):

14. ddarparu gwasanaethau perthnasol ac amserol i gwrdd ag anghenion corfforol, rhywiol, emosiynol a'r iechyd meddwl plant a phobl ifainc i leihau niwed pellach ac i hyrwyddo lles.

Cyflwyniad

Mae timau troseddau ieuenctid (YOTs)[1] yn goruchwylio plant 10-18 mlwydd oed sydd wedi cael eu defrydu gan y llys, neu sydd wedi dod at sylw'r heddlu oherwydd eu hymddygiad troseddol ond heb gael eu cyhuddo – yn lle, deliwyd â nhw heb fynd i'r llys. Mae Arolyguiaeth Prawf EM yn arolygu'r ddwy agwedd gwasanaethau troseddau ieuenctid (YOS).

Mae timau troseddau ieuenctid (YOTs) yn bartneriaethau statudol amlddisgyblaethol, yn ymdrin ag anghenion y plentyn neu'r berson ifanc ar y cyfan. Mae'n ofynnol iddynt gael staff gan y sectorau gofal cymdeithasol ac addysg yr awdurdod lleol, yr heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a gwasanaethau iechyd lleol.[2] Mae'r mwyafrif o YOTs â lleoliad o fewn awdurdodau lleol, ond gall hyn amrywio o bryd i'w gilydd.

Mae gwaith y tîm troseddau ieuenctid (YOT) wedi'i reoli a'i ffurfio'n genedlaethol gan amrywiaeth o ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd yn benodol i'r sector cyfiawnder ieuenctid (megis y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid) neu yn gymwys ar draws y sector cyfiawnder troseddol (er enghraifft cyfarwyddyd ar gyfer trefniadau amlasiantaeth diogelu'r cyhoedd). Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (YJB) yn darparu rhywfaint o gyllid i YOTs. Mae'n hefyd yn monitro eu perfformiad ac yn rhoi cyfarwyddyd iddynt am sut i wneud pethau.

Sefydlwyd yn 2014, roedd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Bae'r Gorllewin yn gyfuniad o wasanaethau troseddau ieuenctid Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr.

Cadeirydd y Bwrdd Rheoli yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant Castell-nedd Port Talbot. Pen-y-bont ar Ogwr yw'r awdurdod lleol arweiniol, ac mae'r Cyfarwyddwr Addysg yn darparu rheoli llinell ar gyfer pennaeth y gwasanaeth. Mae gan y wasanaeth bedair gainc waith - atal, tu allan i'r llys, ar ôl bod yn y llys ac ymgysylltu gwirfoddol. Ar adeg yr arolygiad, roedd y gwasanaeth wedi cynnal 220 o achosion.

Yn dilyn pryderon a nodwyd yn wythnos gyntaf y gwaith maes, rhoesom rybudd sefydliadol. Roedd hyn yn seiliedig ar bedwar achos penodol lle nid oeddem wedi'u sicrhau bod diogelu a phryderon wedi cael eu gafael ynddi neu bod y risg o niwed difrifol i eraill wedi'i ddeall a'i reoli. Yn ychwanegol, canfuom nad oedd wir gwerthfawrogiad o'r risgiau diogelu a'r risg o asesiadau niwed. Nid oeddem yn hyderus bod y gwasanaeth yn ymwybodol o'r holl beryglon. Gofynnom ni am gynllun i'w gyflawni i ddangos sut gallai achosion gael eu hadolygu. Ni chyflwynwyd cynllun a nad oes cynllun mewn lle, ac mae'r ymateb i'r rhybudd sefydliadol yn dangos diffyg dealltwriaeth ac angenrheidrwydd.

Rôl Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw'r arolygydd annibynnol gwasanaethau troseddau ieuenctid a phrawf yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn darparu sicrwydd am

[1] Gweler Geirfa.

[2] Mae *Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998* yn gosod y trefniadau ar gyfer YOTs lleol a gwaith partneriaeth.

effeithiolrwydd gwaith gydag oedolion a phlant sydd wedi'u troseddu i weithredu gorchmynion y llys, lleihau troseddau pellach, amddiffyn y cyhoedd a diogelu'r rhai sy'n fregus. Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn amlygu arferion da a gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i hyrwyddo gwasanaethau o ansawdd da. Rydym yn annibynnol o lywodraeth, ac yn siarad yn annibynnol.

Safonau'r Arolygiaeth Prawf EM

Mae'r safon yr ydym yn eu harolygu yn seiliedig ar fodelau a fframweithiau sefydlog, yn seiliedig ar dystiolaeth, dysgu a phrofiad. Mae'r safonau hyn wedi'u cynllunio i ysgogi gwelliant yn ansawdd y gwaith gyda phobl sydd wedi'u troseddu.[3]

[3] Mae safonau Arolygiaeth Prawf EM ar gael yma: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/

Ffeithiau allweddol

120[4] Y gyfradd newydd-ddyfodiad yr 100,000 ym Mae'r Gorllewin o'i gymharu â chyfartaledd o 273 yng Nghymru a Lloegr

47.9%[5] Y gyfradd aildroseddu ym Mae'r Gorllewin o'i gymharu â chyfartaledd o 41.6% yng Nghymru a Lloegr

Gwybodaeth llwyth gwaith

Oed[6]	**10-14**	**15-17**
Bae'r Gorllewin	12%	88%
Cyfartaledd cenedlaethol	24%	76%
Hil/ethnigrwydd	**Gwyn**	**Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig**
Bae'r Gorllewin	96%	2%
Cyfartaledd cenedlaethol	73%	24%
Rhyw	**Gwryw**	**Benyw**
Bae'r Gorllewin	80%	20%
Cyfartaledd cenedlaethol	83%	17%

Gwybodaeth boblogaeth

<u>Abertawe[7],[8]</u>
245,480 Poblogaeth gyfan

8.5% Poblogaeth ieuenctid gyfan

7.1% Poblogaeth ieuenctid gyfan duon a lleiafrifoedd ethnig

<u>Castell-nedd Port Talbot</u>
142,090 Poblogaeth gyfan

8.6% Poblogaeth ieuenctid gyfan

2.7% Poblogaeth ieuenctid gyfan duon a lleiafrifoedd ethnig

<u>Pen-y-bont ar Ogwr</u>
144,288 Poblogaeth gyfan

[4] *Newydd-ddyfodiaid, Ebrill i Fawrth 2018, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid*

[5] Ystadegau aildroseddu profedig, Ionawr 2016 i Ragfyr 2016, Gweinyddiaeth Gyfiawnder Hydref 2018

[6] *Ystadegau Blynyddol Cyfiawnder Ieuenctid: 2016 i 2017, YJB, Ionawr 2018*

[7] *Amcangyfrifon Poblogaeth y DU, canol blwyddyn 2017, Swyddfa Ystadegau Gwladol, Mehefin 2018*

[8] *Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhagfyr 2012*

8.9% **Poblogaeth ieuenctid gyfan**

2.9% **Poblogaeth ieuenctid gyfan duon a lleiafrifoedd ethnig**

Canfyddiadau manwl

1. Dulliau gweithredu'r sefydliad

Mae sefydliadau sy'n cael eu harwain a'u rheoli yn dda yn fwy tebygol i gyflawni eu hamcanion. Rydym yn arolygu yn erbyn pedair safon.

1.1	**Llywodraethu ac Arwain** Maellywodraethu ac arweinyddiaeth y TTI (YOT) yn cefnogi ac yn hyrwyddo darpariaeth o wasanaeth ansawdd-uchel, personol sy'n ymateb i'r holl blant a phobl ifainc.	**Annigonol**

Mae llywodraethu ac arweinyddiaeth y gwasanaeth yn aneffeithiol. Nid oes gweledigaeth ar y cyd, dealltwriaeth o'i bwrpas neu strategaeth i ddarparu gwasanaeth ansawdd-uchel personol sy'n ymateb i blant a phobl ifainc. Nid oes un o'r tri awdurdod lleol wedi cymryd cyfrifoldeb priodol am waith y gwasanaeth. Gwelsom enghreifftiau o sut gwnaeth pob awdurdod lleol flaenoriaethu eu plant a'u pobl ifainc eu hunain, ond nid oedd yr awdurdodau lleol wedi ystyried yr anhawsterau posibl o weithio mewn tair system wahanol ar gyfer gofal cymdeithasol, adnoddau dynol ac amrywiaeth o systemau atgyfeirio. Nid yw'r cyfarwyddwr gofal cymdeithasol wedi dadansoddi a yw anghenion diogelu wedi cael eu nodi a'u hymateb.

Nid oes dull gan y Bwrdd Rheoli i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, nad yw'n sylwi ar y nifer o bryderon sy'n atal gwaith effeithiol rhag cael ei wneud, yn cynnwys y diogelwch a'r lles plant a phobl ifainc, a chyfrifoldebau diogelu'r cyhoedd. Nid yw'r Bwrdd yn deall anghenion y grŵp penodol hwn o blant a phobl ifainc, y tîm staff neu'r gwasanaeth. Nid oes her neu atebolrwydd. Mae gan y Cadeirydd, wedi'i benodi yn ddiweddar, ddealltwriaeth gynyddol am ddiffygion y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd wedi bod yn ddibynnol ar fonitro tri dangosydd perfformiad allweddol (newydd-ddyfodiaid, cyfraddau aildroseddu a'r defnydd o ddalfa). Mae wedi derbyn adroddiadau a ddarparwyd gan y cyn pennaeth gwasanaeth heb ddigon o archwilio.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod rhan o'i rôl yw ymateb i faterion sydd wedi'u dwysáu, ond pan ofynnwyd, nid oedd yn gallu rhoi enghraifft o fater a oedd angen cael ei ddatrys. Nid yw prosesau dwysáu yn effeithiol yn cyrraedd y Bwrdd ac yn llywio newidiadau systemig. Nid oedd y Bwrdd yn gallu dweud pam na chodwyd y mater ynghylch anfodlonrwydd ar ddarpariaeth iechyd.

Nid yw'r cynrychiolydd iechyd wedi mynychu cyfarfod bwrdd ers 12 mis, ac yn lle mae wedi gwneud gwaith YOS yn y Bwrdd Iechyd Plant heb gael profiad uniongyrchol o edrych ar y data neu o ddadansoddi anghenion plant a phobl ifanc neu o werthfawrogi'r bylchau yn y gwasanaeth.

Mae mynychder yn y cyfarfodydd Bwrdd gan aelodau eraill yn amrywiol ac yn gyfnewidiol yn aml. Nid yw Gyrfaoedd Cymru, a allai ddarparu cymorth defnyddiol, wedi cael ei wahodd hyd at hyn i fynychu'r Bwrdd.

Nid oes tystiolaeth bod aelodaeth y Bwrdd yn cynorthwyo â darparu gwasanaeth gan asiantaethau partneriaid. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn iechyd, addysg a gofal

cymdeithasol. Nid yw rôl a chyfrifoldeb y YOS yn adnabyddus i lawer, ac mae hyn wedi arwain at ddryswch ynghylch rhannu gwybodaeth a diffyg llwybrau penodol i helpu plant a phobl ifainc gael mynediad i'r gwasanaethau y mae eu hangen. Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau yn aneglur, yn enwedig rhwng y gwasanaeth a'r tri gwasanaeth gofal cymdeithasol plant. Mae hyn wedi gadael rhai plant a phobl ifainc mewn sefyllfaoedd anniogel.

Pan wnaethom holi i staff am eu profiadau o weithio i'r gwasanaeth, dywedodd hanner ohonynt yn unig eu bod yn gwybod am weithgareddau'r Bwrdd. Dywedodd gyfran uchel o staff (85 y cant) na gofynnwyd nhw am eu barnau.

Ar lefel strategol, mae trefniadau partneriaeth yn annigonol a nad ydynt yn hyrwyddo darparu ymarfer effeithiol, yn enwedig o ran gwaith atal a gwaith ar ôl bod yn y llys.

Nid yw rhai asiantaethau yn deall rôl y WBYJEIS ac felly maen nhw'n gwneud atgyfeiriadau amhriodol i'r gwasanaeth atal. Nod y gwasanaeth atal yw ceisio rhwystro plant a phobl ifainc rhag troseddu. Er hynny, canfuom fod tri o blant yn wyth mlwydd oed wedi cael ei atgyfeirio i'r gwasanaeth, asiantaeth cyfiawnder troseddol, pan oedd yn amlwg bod anghenion diogelu ganddynt. Atgyfeiriwyd un plentyn gan ysgol oherwydd roedd e'n hunan-niweidio a bygwth i ladd ei hunan. Gwnaethom gyfarwyddo'r gwasanaeth i wneud atgyfeiriad diogelu plant ar frys.

Mewn achos arall, roedd y plentyn ar gynllun Amddiffyn Plant oherwydd esgeulustra a chamdrin corfforol. Gwnaeth Gwasanaethau Plant atgyfeiriad i WBYJEIS oherwydd bod y plentyn, ar sawl achlysur, wedi mynd â chyllell o'r gegin. Canfuwyd hyn i fod yn ymddygiad cyn-troseddol, pan roedd yn fwy tebygol i fod yn gais gan yr unigolyn i gadw ei hunan yn ddiogel neu i ailadrodd ymddygiad yr oedd wedi eu gweld yn y cartref teuluol. Yn y ddau achos hwn, gofal cymdeithasol plant oedd yr asiantaeth briodol i amddiffyn y plant hyn, ac nid y gwasanaeth cyfiawnder troseddau.

Mae'r tri awdurdod lleol sy'n rhan o Fae'r Gorllewin yn y bôn yn gweithio fel tri endid unigol. Mae tystiolaeth o waith trawsawdurdodol ond mae hyn yn dibynnu yn bennaf ar fenter yr unigolyn, yn hytrach na chefnogaeth gan strwythurau rheoli priodol a pholisïau a gweithdrefnau cyson.

Mae rhai rheolwyr uwch yn gwybod am effaith profiadau niweidiol mewn plentyndod, ond nid oedd unrhyw rai o'r asiantaethau partneriaid yn gwybod am sut mae eu cyfraniad yn cefnogi ymataliad.

Mae'r tîm arweinyddiaeth wedi wynebu problemau mawr yn cefnogi darparu effeithiol. Mae'r strwythur gweithredu yn ddryslyd, ac mae cyfathrebu i reolwyr yn gyfyng. Mae gan y ddau reolwr gyfrifoldebau gwahanol (gwaith cyn i'r llys ac ar ôl bod yn y llys) ond mae gan y timau lwythi gwaith generig ac felly yn gorfod adrodd i'r ddau ohonynt. Mae rôl o ymarferydd uwch wedi'i gyflwyno yn ddiweddar i ymdrin ag achosion ac i gael cyfrifoldeb rheoli llinell am nifer o reolwyr achos. Mae hyn yn golygu bod mwy o ddryswch ynghylch atebolrwydd.

Nid oes digon o reolwyr gweithredol gan mai dim ond dau reolwr sydd ar draws tri thîm. Mae'r rheolwyr wedi cael eu gadael mewn sefyllfa anodd iawn, heb unrhyw gyfarwyddyd neu gefnogaeth glir gan y Bwrdd Rheoli.

Oherwydd diffyg trefniadau partneriaeth a chyfarwyddyd gan y Bwrdd, mae rheolwyr gwasanaeth yn ceisio mynd i afael â'r nifer o rwystrau at waith effeithiol, ond nid oes ganddynt yr awdurdod neu'r adnoddau i ddadansoddi'r problemau sylfaenol.

Pan fod materion yn cael eu codi gan reolwyr, nid yw rhain wedi'u datrys yn y Bwrdd; mae'r rheswm am hyn yn aneglur. Mae rheolwyr yn ceisio dadansoddi materion unigol pan mae angen cael dull systemig. Nid yw'r dau reolwr wedi'u cefnogi ac nid oedd trosglwyddiad priodol gan y cyn pennaeth pan adawodd y gwasanaeth ym Medi 2018.

Dechreuodd y pennaeth newydd, nad yw wedi bod ar gwrs sefydlu eto, yn Hydref 2018, gyda'r cyfarwyddyd i dynnu Pen-y-bont ar Ogwr o wasanaeth Bae'r Gorllewin, heb unrhyw anfantais i'r awdurdodau lleol eraill. Ebrill 2019 yw'r amserlen arfaethedig ar gyfer y darn mawr hwn o waith. Nid yw'r Bwrdd a'r prif weithredwyr wedi ymgymryd ag unrhyw gynllunio ar gyfer y gwaith hwn.

Nid oes unrhyw fesurau lliniaru neu reolaeth mewn lle i nodi neu reoli risgiau'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys methu â chyfuno'r tri YOS i un gwasanaeth cyfan, a'r gwahaniad ar ddod o Ben-y-bont ar Ogwr.

1.2	**Staff** Mae'r staff o fewn y YOT gydag awdurdod i ddarparu gwasanaeth ansawdd-uchel, personol sy'n ymateb i'r holl blant a phobl ifainc	**Annigonol**

Mae angen mynd i'r afael â materion megis goruchwyliaeth annigonol, diwylliant gwael nad yw'n cefnogi dysgu a gwella, a gweithlu prin o gymhelliad cyn y bydd y sefydliad hwn yn gallu dechrau gwella.

Er bod llwythi gwaith ar lefel dderbyniol erbyn hyn, maent wedi bod yn uchel ynghynt.
Mae lefelau staffio wedi cael eu heffeithio gan absenoldeb salwch tymor byr a thymor hir. Nid yw'r Bwrdd a'r tîm rheoli yn sylweddoli graddfa hwn oherwydd nad oes monitro canolog o salwch staff, gyda phob un o'r tri awdurdod lleol yn cofnodi salwch ar wahân. Mae un rheolwr heb gael hyfforddiant ar y systemau hyn.

Mae achosion yn aml yn cael eu hailddyrannu i gyflenwi am salwch ond mae hyn yn ychwanegu at lwythi gwaith presennol. Canfuom fod rhai planta phobl ifaincwedi cael nifer o staff yn gweithio gyda nhw dros gyfnod y gorchymyn neu gyda chysylltiad gwirfoddol.

Nid oes gan y gwasanaeth strategaeth effeithiol i sicrhau bod plant a phobl ifainc sy'n siarad Cymraeg yn derbyn gwasanaeth yn Gymraeg, ei fod yn gallu ei datblygu neu ei hannog i ddatblygu ymwybyddiaeth o'i gwerth fel sgil cyflogaeth. Nid oes digon o adnoddau dwyieithog ar gael i weithwyr annog i blant a phobl ifainc ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r timau gwasanaethau yn cynnwys gweithwyr gofal cymdeithasol cymwysedig a staff cefnogi. Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn cael eu goruchwylio gan reolwr

anghymwys. O ran achosion wedi bod yn y llys, nid yw'r rôl gweithiwr gofal cymdeithasol arbenigol wedi diogelu'r holl blant a phobl ifainc perthnasol.

Mae gwasanaethau gan weithwyr cyffuriau ac alcohol yn dda. Mae cyngor gan y therapydd iaith a lleferydd yn cael ei werthfawrogi, ond weithiau mae'n cael ei ddefnyddio yn lle gwybodaeth y dylai wedi cael ei darparu gan ysgolion. Mae'r gweithwyr cyffuriau ac alcohol yn frwdfrydig ac roedd ganddynt lwythi gwaith rhesymol o rhwng 10 a 12 o blant a phobl ifainc. Er hynny, mae cyfrifoldebau eraill gan y gweithwyr hyn, megis cludo plant a phobl ifainc, pan nad yw staff eraill ar gael.

Mae un therapydd iaith a lleferydd yn gweithio yn y tair ardal sy'n rhan o Fae'r Gorllewin. Roedd aelod arall o'r tîm ar gyfnod mamolaeth ac nid oedd gweithiwr newydd yn ei lle, a oedd wedi gostwng y lefel o wasanaeth yn sylweddol, a gwnaeth y dau aelod o'r tîm gydnabod nad oedd hyn yn darparu'r gwasanaeth gyda'r gefnogaeth a oedd ei angen. Yn ymarferol, roedd y therapydd iaith a lleferydd ond yn gallu darparu asesiad, ac nid gwaith unigol, i blant a phobl ifainc.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei gefnogi yn dda gan Heddlu De Cymru. Penodir swyddogion wedi'u secondio i'r tri heddlu bwrdeistref: un ym Mhen-y-bont ar Ogwr, dau yn Abertawe ac un yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'r swyddogion yn gweithio yn yr un lleoliad â'r rheolwyr achos gyda mynediad da at TG a systemau, ac mae'r lleoliad ar y cyd hefyd yn hybu rhannu deallusrwydd. Mae un swyddog ar fin ymddeol ac mae'r gweithiwr newydd am y rôl eisoes wedi'i ddechrau yn cynorthwyo â mentora a rhannu profiad. Mae'r swyddogion heddlu yn gweithio mewn ardaloedd daearyddol eraill pan fo angen.

Mae'r swyddogion i gyd yn aelodau parchus o'r tîm cyfiawnder troseddau. Mae'r swyddogion yn rhoi cymorth gwerthfawr i'r rheolwyr achos drwy rannu deallusrwydd, a lle bo'n briodol maent yn cynnal ymweliadau cartref ar y cyd.

Mae'r cyswllt rhwng swyddogion heddlu a'r timau heddlu'r fro yn brin. Byddai cyfathrebu mwy effeithiol yn gwella gwybodaeth ehangach yr heddlu o'r gwaith y gwasanaeth ieuenctid troseddau.

Mae dealltwriaeth dda o'r trefniadau amlasiantaeth diogelu'r cyhoedd (MAPPA), a'r perthnasau cadarnhaol gyda'r swyddogion heddlu a'r uned MAPPA.

Er bod swyddogion heddlu yn deall camfanteisio'n rhywiol a throseddol ar blant, nid ydynt wedi derbyn unrhyw hyfforddiant penodol ar hyn ac maent wedi derbyn hyfforddiant diogelu cyfyng.

Mae staff yn ymroddedig ac yn gweithio'n galed i helpu plant a phobl ifainc. Er hynny, mae hyn yn golygu bod diffyg gwasanaethau partneriaeth effeithiol yn aml. Mae rhai staff yn brin o gymhelliad. Mae hwn yn ei weld i ddod ofaterion cyfredol yn dilyn methu â gweithredu'r cynllun cyfuno gwreiddiol yn llawn, a'r diffyg cefnogaeth gyson. Yn gyffredinol, mae morâl staff yn fregus.

Mae trefniadau am oruchwylio rheolwyr mewn lle ond nid ydynt yn cael eu gweithredu yn ddigon cyson. Nid oedd rhai staff, yn cynnwys rheolwyr, wedi cael eu goruchwylio ers misoedd. Mae'r ychydig o staff sy'n cael eu goruchwylio yn aml yn ei gwerthfawrogi.

Gall staff gael mynediad at hyfforddiant a gynigir gan y tri awdurdod lleol. Mae'r staff i gyd wedi cael hyfforddiant arferion wedi'u llywio gan drawma am effaith profiadau niweidiol mewn plentyndod. Mae'r mwyafrif o staff yn teimlo y gallent gael mynediad i'r hyfforddiant a mynychu'r hyfforddiant y maent eu hangen ar gyfer y rôl.

Roedd rheolwyr achos wedi cael hyfforddiant yn fframwaith asesu AssetPlus yn gynharach yn y flwyddyn 2018. Er hynny, gwelsom nad oedd staff yn ymwybodol o rai swyddogaethau allweddol a gwelsom fod eu defnydd o'r system yn elfennol. Nid oes fawr o dystiolaeth am ddiwylliant dysgu, a lle mae gwelliannau yn digwydd maent yn aml yn digwydd oherwydd ymdrechion unigol.

1.3	**Gwasanaethau a phartneriaethau** Mae ystod eang o wasanaethau ansawdd-uchel mewn lle, yn galluogi darpariaeth bersonol sy'n ymateb i'r holl blant a phobl ifainc.	**Annigonol**

Ac eithrio'r heddlu, mae'r partneriaeth wedi methu â darparu ystod o wasanaethau i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifainc.

Nid oes dadansoddiad anghenion sy'n gywir, diweddar neu'n gynhwysfawr, ar lefel strategol neu gweithredol. Nid yw'r anghenion penodol o blant a phobl ifainc yn cael eu deall yn iawn. Nid yw gwybodaeth wedi'i chynnwys yn y cynllun cyfiawnder ieuenctid yn rhoi manylion penodol o'r anghenion sydd heb gael eu diwallu. Mae'r cynllun yn cynnwys barnau staff a barnau rhai plant a phobl ifainc, ond nid oes camau gweithredu amlwg i afael â'u pwyntiau.

Gwneir penderfyniadau gan reolwyr gwasanaeth troseddau, awdurdodau lleol ac aelodau'r Bwrdd ar sail 'dyfaliad gorau' neu o safbwynt un awdurdod lleol, yn hytrach na bod yn seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r mwyafrif o ysgolion yn darparu gwybodaeth i'r gwasnaeth am berfformiad addysg plant a phobl ifainc mewn ffordd amserol. Fel arfer, maent yn darparu gwybodaeth am y plentyn sydd ar gofrestr ac, weithiau, am lefelau mynychder. Er hynny, nid yw'r ystod o wybodaeth a roir yn gyson ar draws yr holl ysgolion. Mae ychydig o ysgolion yn darparu gwybodaeth o gymorth am lefelau llythrennedd a rhifedd plant a phobl ifainc. Nid yw cyn lleied o ysgolion yn hysbysu rheolwyr achos pan fo'r plant a phobl ifanc yn absennol neu pan fo'u hymddygiad yn cael effaith negyddol ar eu perfformiad; mewn rhai achosion, mae hyn yn arwain at yr ysgol yn gwahardd plant a phobl ifainc heb i'r rheolwr achos wybod amdani.

Mae gormod o blant a phobl ifainc yn oedran ysgol nad ydynt yn derbyn eu hawl i addysg; maen nhw mewn ychydig o achosion ond yn derbyn awr y diwrnod, sy'n golygu nad ydynt yn brysur ar adegau pan maent yn fregus iawn ac yn fwy tebygol i aildroseddu.

Nid yw'r trefniadau mewn unedau cyfeirio disgyblion (PRUs) ar gyfer plant a phobl ifainc i gael mynediad at gefnogaeth ymddygiad troseddu yn ystyried eu hangenion yn iawn. Mewn un PRU, nid yw gweithwyr yn gallu cysylltu â staff os oes angen arnynt gael gweld plant a phobl ifainc oherwydd nad yw'r rhif ffôn cyhoeddedig yn gweithio. Mae PRU arall wedi gwrthod i'r plant a phobl ifainc gael gweld eu rheolwr achos oherwydd ymddygiad gwael, pan gallai'r cyfarfod hyn wedi cael ei ddefnyddio i helpu gwneud yn iawn am yr ymddygiad hwnnw.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn gyfrifol am ddarpariaeth iechyd i'r gwasanaeth. Nid oedd tystiolaeth o unrhyw weledigaeth neu ddogfen strategaeth, na thystiolaeth o amcanion tymor hir/byr ar gyfer anghenion iechyd plant a phobl ifainc. Mae ychydig iawn o dystiolaeth o waith partneriaeth rhwng y bwrdd iechyd a'r gwasanaeth.

Mae rhaglen sgrinio iechyd corfforol wedi'i datblygu, gan reolwr addysg uwch. Nid yw'r rhaglen sgrinio o ddefnydd yn ymarferol ac nid yw'n arwain at ddarparu gwasanaeth. Mae staff, ar y cyfan, wedi stopio ei defnyddio.

Darperir Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn uniongyrchol i'r gwasnaeth drwy sesiynau hanner diwrnod yn fisol, yn rhoi cyngor achosion i staff yn hytrach na gweld y plant neu'r bobl ifanc. Nid yw cefnogaeth CAMHS yn cwrdd ag anghenion y plant a phobl ifainc; cadarnhawyd hyn yn y nodiadau achosion a gan nifer o aelodau staff. Gwelsom lefel uchel o angen mewn achosion ond, er bod tystiolaeth o ymddygiad trallodus yn mynd yn ei flaen, nid yw plant yn derbyn gwasanaethau oni bai bod eu cyflwr yn ddifrifol.

Roedd un achos o ferch 14 mlwydd oed gyda hanes o droseddau ynghylch dwyn alcohol. Gwnaeth hi hunan-niweidio ac roedd hi wedi'i hadnabod i fod yn fregus. Roedd hi wedi gofyn am help ar nifer o weithiau ond ni ddarparwyd hyn oherwydd "gwnaeth hi ddim gyrraedd y trothwy am wasanaethau". Roedd hi ond pan aeth hi i archfarchnad, yn dwyn ac yfed vodka, a hunan-niweidio yn y siop a gafodd hi'r help yr oedd difrifol ei angen arni.

Disgrifiodd un aelod o staff wasanaeth CAHMS fel "gwasanaeth anfodol; dwy streic a byddwch chi'n allan, ac wedyn y byddant yn eich tynnu o'u rhestr os na fyddwch chi'n ymateb".

Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn darparu unrhyw ofal iechyd corfforol neu seicolegol i'r gwasanaeth (ac eithrio'r gwasanaeth CAMHS); roedd yn amlwg bod gan rai plant a phobl ifainc broblemau iechyd meddwl nad oeddynt yn diwallu â'r trothwy i'r gwasanaeth CAMHS fod yn rhan ohono. Mae gwasanaeth iechyd rhywiol o fath ar gael i blant a phobl ifainc.

Mae lefel sylweddol o ddatgysylltu gan y Bwrdd Iechyd mewn nifer o feysydd allweddol, yn cynnwys yn y Bwrdd Rheoli a'r mewnbwn uniongyrchol dydd i ddydd i waith y gwasanaeth.

Nid yw gwasanaethau camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) yn gyson. Nid yw rheolwyr achos yn deall y dogfennau asesiadau, ac mae'r cynllunio a'r ymateb i achosion yn aneglur, nad yw'n cael eu rhannu neu nad yw'n gweld i'w fodoli.

Gofynsom am wybodaeth bellach am achosion oedd wedi'u cau ynghylch dau fachgen, er yr oedd tystiolaeth glir o beryglon yn mynd yn ei flaen. Yn y ddau achos hwn, ar ôl i'r bechgyn gael eu tynnu o'r perygl ar fin digwydd, cawson nhw ddim gefnogaeth i reoli eu hanghenion emosiynol, ac roedd ychydig iawn o gynllunio ynghylch rheoli'r effeithiau a'r peryglon yr oeddynt wedi dioddef o gamdrin rhywiol.

Mae mynediad a'r gwaith ar y cyd gyda'r tri gwasanaeth gofal iechyd plant yn amrywiol. Mae trothwyon ar gyfer gwasanaethau yn aneglur, ac nid yw rheolwyr achos yn deall pam nad yw atgyfeiriadau wedi'u derbyn. Mae adborth am atgyfeiriadau yn brin.

Yn ystod ein trafodaethau gyda staff a gweithwyr partneriaeth, roedd yn amlwg bod staff yn wasanaethgar iawn i blant, a siaradasant yn galonnog o'r plant a phobl ifainc yr oedd yn gweithio gyda nhw. Roedd yn amlwg bod eu hanghenion unigol yn bwysig iddynt, ac roeddynt yn ymdrechu i gyrraedd y canlyniadau gorau. Roedd hyn wedi'i osod yn erbyn strwythur gwasanaeth a rheoli nad yw'n bob amser yn cefnogi neu'n hyrwyddo hyn.

Nid oes systemau mewn lle i adolygu neu i werthuso'r addasrwydd, defnydd neu effeithiolrwydd gwasanaethau, ac mae gor-ddibyniaeth ar wybodaeth annibynadwy.

Mae ychydig iawn o enghreifftiau am sut mae materion diogelu a'r risg o niwed yn cael eu rheoli, ond mae'r rhain yn eithriad. Mae materion risg o niwed yn cael eu camfarnu, mae cynllunio yn wael ac mae gan asiantaethau, ac eithrio'r heddlu, fesurau rheoli risg sy'n aml yn anhrefnus ac yn unigol.

Mae gallu'r gwasanaeth i ddiwallu anghenion ymatal, diogelu plant a phobl ifainc, ac i amddiffyn dioddefwyr yn cael eu cyfaddawdu gan ddiffyg cyfarwyddyd clir, ymateb partneriaeth strategol iawn a gwaith partneriaeth amrywiol iawn ar lefel gweithredol.

Nid yw'r mathau o droseddau a'r patrymau o ddedfrydau yn cael eu monitro. Nid yw'r Bwrdd wedi ystyried goblygiadau i'w cael gyda llai o blant a phobl ifainc yn y ddalfa a chael dedfrydau cymunedol yn lle.

1.4	**Gwybodaeth a chyfleusterau** Mae gwybodaeth amserol a'r perthnasol ar gael ac mae cyfleusterau priodol mewn lle i gefnogi dull ansawdd-uchel, person sy'n ymateb i'r holl blant a phobl ifainc.	**Annigonol**

Mae ystod o bolisïau mewn lle, ond nid yw rhain yn adlewyrchu'n ddigonol y dulliau gwahanol o fewn y tri awdurdod lleol. Mae ychydig o gyswllt rhwng polisi ac ymarfer. Mae staff wedi'i ddrysu gan y gwahaniaethau hyn, gan drothwyon newidiol, a'r diffyg her effeithiol am yr ansawdd a'r argaeledd o wasanaethau a ddarperir gan yr asiantaethau partneriaid. O ganlyniad, nid yw plant a phobl ifainc bob amser yn derbyn yr help y maent ei angen.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu o nifer o leoedd, a'r mwyafrif ohonynt o leoedd addas.

Mae'r plant a phobl ifainc sy'n mynd i'r swyddfa ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gorfod adrodd i ddesg dderbynfa agored. Mae staff yn y swyddfa hon yn rhannu lleoliad gyda gwasanaethau safonau masnach a gwasanaethau iechyd yr amgylchedd. Rydym yn rhannu eu pryderon ei bod yn anodd cadw cyfrinachedd. Nid oedd aelodau'r Bwrdd a siaradodd â ni wedi ymweld â'r safleoedd i fodloni eu hunain o'u haddasrwydd.

Nid yw'r Bwrdd wedi asesu'r diogelwch staff pan weithio o bell, er bod staff ei hunain wedi datblygu rhai systemau.

Mae'r ganolfan ymyrryd yn gyfleuster plant yn Abertawe; mae ar gael i'r holl blant a phobl ifainc. Mae'r ganolfan yn cynnig ystod o wasanaethau, yn cynnwys addysg ac hyfforddiant, gwaith ymddygiad troseddu a rhywle lle mae modd datblygu perthnasau rhwng staff a phlant.

Ar adeg y cyfuniad, cyflwynwyd un system rheoli achosion. Er hynny, mae staff dal yn gorfod defnyddio tair system gofal cymdeithasol unigol i gael mynediad at wybodaeth. Ni all y systemau hyn gael eu defnyddio o bell felly mae angen i reolwyr a staff yrru i'r swyddfa â lleoliad yn yr ardal honno i gael gweld gwybodaeth, sy'n oedi'r broses o rannu gwybodaeth.

Mae protocoliau mewn lle ar gyfer rhannu gwybodaeth ond nid ydynt bob amser yn cael eu deall yn iawn. Mae dryswch ar draws y partneriaeth ynghylch pa wybodaeth all gael ei rhannu; mae hyn yn
nodweddiadol o fethu â gweithio gyda'i gilydd. Gweler canlyniadau hyn yn ein hasesiadau o dan maes dau a thri. Mae'n anodd i reolwyr achos ddeall yn iawn holl ffactorau risg o niwed neu'r ffactorau diogelu.

Mae rheolwyr yn eu cael yn anodd i gael defnyddio gwybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth am absenoldeb salwch. Defnyddir tair system arfarnu flynyddol wahanol.

Mae tystiolaeth gyfyngedig i awgrymu bod dadansoddi a dysgu yn cael eu defnyddio yn drylwyr i ysgogi gwelliant ar unrhyw lefel. Mae gwaith gwella wedi'i ddirprwyo gan y Bwrdd i rŵp gorchwyl o staff gweithredol a'r Grŵp Archwilio Perfformiad (PAG). Mae gwerth i waith y grŵp hwn, ond nid oes awdurdod gan y grŵp i wneud y newidiadau ehangach sydd eu hangen gan y gwasanaeth a'i bartneriaid. Mae'r Bwrdd yn cymryd ychydig iawn o gyfrifoldeb am wella'r gwasanaeth.

Crynodeb – Dulliau gweithredu'r sefydliad

Cryfderau:

- Mae staff a timau rheoli ymroddedig, sydd eisiau darparu gwasanaeth effeithiol i blant a phobl ifainc.
- Mae gwaith partneriaeth effeithiol rhwng yr heddlu a'r gwasanaeth.

Meysydd i'w gwella:

- Dylai diogelwch a lles plant, pobl ifainc a dioddefwyr gael eu sicrhau drwy waith partneriaeth.
- Mae angen i'r Bwrdd Rheoli ddeall ei rolau a'i gyfrifoldebau, a'r anghenion plant a phobl ifainc.
- Dylai rolau a chyfrifoldebau'r gwasanaeth fod yn amlwg i'r staff a'r partneriaid.
- Mae angen i bartneriaid fod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifainc sy'n hysbys i'r gwasanaeth.
- Dylai llinellau atebolrwydd a rheolaeth fod yn glir ac yn effeithiol.
- Mae'r adnoddau rheoli yn rhy gyfyngedig i ddarparu goruchwyliaeth effeithiol o waith, rheoli'r gwasanaeth, ac i reoli gwahaniad Pen-y-bont ar Ogwr o WBYJEIS.
- Dylai fod cyfathrebu effeithiol rhwng y tri awdurdod lleol a'r byrddau iechyd ynghylch ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth, yn cynnwys gweithio ar y cyd gyda sefydliadau megis gofal cymdeithasol plant, darpariaeth iechyd a gwasanaethau addysg.

2. Penderfyniadau'r Llys

Bydd gweithio gyda phlant a phobl ifainc a ddedfrydir gan y llysoedd yn fwy effeithiol os bydd yn cael ei dargedu, ei gynllunio a'i weithredu yn dda. Yn ein harolygiadau, rydym yn edrych ar sampl o achosion. Ym mhob un o'r achosion hyn, rydym yn arolygu yn erbyn pedair safon.

2.1	**Asesu** Mae asesu yn digwydd mewn modd gwybodus, dadansoddol a phersonol, yn cael y plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr i fod yn rhan weithredol o'r broses.	**Annigonol**

Yn gyffredinol, roedd ansawdd yr asesiadau yn annigonol. Roedd yr asesu o ffactorau ymatal y cryfaf, yn ddigonol mewn 65 y cant o achosion. Fel rheol, roedd barnau'r plentyn neu'r person ifanc a'u rheini/gofalwyr wedi eu hymgorffori yn asesiadau, yn ogystal â chryfderau nodedig a ffactorau amddiffyn.

Roedd gan yr staff, a oedd yn rhan o'r cyfweliad, ddealltwriaeth well o'r plentyn neu'r person ifanc nag oedd wedi'i chofnodi yn yr asesiad AssetPlus. Er bod hyfforddiant AssetPlus wedi'i ddigwydd wyth mis ynghynt, roedd gan staff ond ddealltwriaeth sylfaenol o'r fframwaith asesu hwn.

Nid oedd nifer o'r staff yn gallu cael gweld diffiniadau am risg o niwed difrifol neu ddiogelwch a lles, a gallai rhain wedi cyfrannu at gamfarnu ehangach o'r ffactorau hyn. Mewn 20 o'r 31 achos a aseswyd, roedd diogelwch a lles plant a phobl ifainc wedi'u chamfarnu ac roedd yn anghywir. Nid oedd effeithiau pob math o gamdrin, camdrin emosiynol rhieni tymor hir ac ymddygiad peryglus iawn, wedi cael ddigon o bwys. Canfuom achosion a aseswyd gennym lle yr oedd plant a phobl ifainc dal yn anniogel.

Mewn un achos, nododd yr arolygydd:

"Roedd y plentyn a'u teulu wedi symud i Gymru oherwydd cysylltiadau â gangiau ac ecsbloetio troseddol. Mae'r plentyn yn aml yn ysmygu canabis a'i wedi adrodd yn goll o'i gartref ar un achlysur - gwnaethom ddod o hyd iddo yn ei ardal wreiddiol yn fwy na 100 milltir i ffwrdd. Bygythiodd ei dad gyda chyllell yn y cartref teuluol. Er bod pryderon ynghylch ffordd o fyw, partneriaid, ffiniau yn y cartref teuluol, camddefnyddio sylweddau a bod yn ddiogel, mae'r rheolwr achos yn nodi pryderon isel ynghylch diogelwch a lles ac nid yw'n defnyddio'r matrics AssetPlus i archwilio, dadansoddi a chyfiawnhau'r dosbarthiad hwn."

Roedd gwybodaeth am rai asesiadau yn wallus. Roedd un achos lle roedd y plentyn wedi'i gofnodi yn cael dim cyswllt â gofal cymdeithasol plant, ond mewn gwirionedd yr oedd yn plentyn a oedd yn derbyn gofal.

Roedd rheoliadau allanol - symudiadau y gall oedolion eu cymryd i amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc - ond wedi'u cynnwys fel rhan o'r asesiad mewn chwarter o'r achosion. Roedd gweithredu a allai wedi'i gymryd gan ofal cymdeithasol plant, ysgolion a'r gwasanaeth camfanteisio'n rhywiol ar blant yn aml ar goll.

Roedd asesu am risg o niwed difrifol i eraill hefyd yn annigonol, lle barnwyd 37 y cant ohonynt yn unig i fod yn gywir. Eto, roedd ffactorau risg ac ymddygiad peryglus blaenorol wedi'u chamfarnu - yn cynnwys ymddygiad troseddol - ac nid oedd wedi'u defnyddio i ddeall y gwir risg a'r risg posibl i ddioddefwyr.

Roedd dau achos o blant a oedd wedi lawrlwytho delweddau anweddus o gamdrin rhywiol plant wedi'i asesu fel risg isel o niwed difrifol; gwnaethom anghytuno gyda'r ddau asesiad. Mewn un achos, nid oedd gallu'r plentyn i gael defnyddio y 'we dywyll' wedi'i asesu neu ei ddeall. Roedd yr asesu yn rhy barod i dderbyn esboniad y plentyn pan, mewn gwirionedd, mae'n bron yn amhosib i ddod ar draws deunyddiau fel hyn ar ddamwain.

Er dilyswyd asesiadau yn aml, nid oedd diffygion wedi'u nodi trwy'r broses hon ac roedd staff yn aneglur ynghylch trefniadau goruchwyliaeth rheoli.

2.2	**Cynllunio** Mae cynllunio yn digwydd mewn modd gwybodus, cyfannol a phersonol, yn cael y plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr i fod yn rhan weithredol o'r broses.	**Annigonol**

Roedd y cynllunio i leihau troseddu yn dda mewn tri chwarter o achosion. Nodwyd ymyriadau a gwasanaethau mwyaf tebygol i leihau troseddu pellach, a nodwyd cryfderau'r plentyn neu'r person ifanc yn yr un modd. Roedd barnau'r rhieni/gofalwyr a'r plentyn neu'r person wedi'u defnyddio fel rhan o'r broses gynllunio, a oedd wedi'u theilwra yn aml i gwrdd ag anghenion unigol. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i drefn yr ymyriadau, a oeddynt yn gymesur i'r gorchymyn llys a'r trosedd.

Roedd cynllunio i amddiffyn dioddefwyr a dioddefwyr posibl yn ddigonol mewn 18 o'r 25 achos lle yr oedd ei angen, er i'r rheolwyr achos gael gweld anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr.

Roedd anghenion diogelwch a lles wedi'u cynllunio mewn 41 y cant o achosion. Roedd 26 achos lle dylai cynllunio ar y cyd gydag asiantaeth eraill wedi digwydd ond digwyddodd hyn ond mewn hanner o'r achosion. Canfuom rhai enghreifftiau da o gynllunio trefnus, ond roedd rhain yn eithriad ac yn seiliedig ar ddull aelod o staff unigol yn hytrach nag ar agwedd disgwyliedig o gynllunio.

Roedd cynllunio effeithiol yn cynnwys trefniadau wrth gefn, er mwyn i wasanaethau allu ymateb i newidiadau disgwyliadwy, ond wedi'i ddigwydd mewn llai na thraean o achosion lle yr oedd ei angen. Digwyddodd hyn oherwydd nad oedd rheolwyr achos yn gwybod sut i gael defnyddio'r adran wrth gefn y system AssetPlus.

Roedd ymyriadau i reoli a lleihau peryglon wedi'u cynnwys fel rhan o'r broses gynllunio mewn 12 o'r 27 achos lle yr oedd ei angen. Dywedodd staff wrthym nad oeddynt bob amser yn ymwybodol o beth oedd asiantaethau eraill yn gallu darparu. Er enghraifft, nid oedd rheolwyr achos yn hyderus y byddai gofal cymdeithasol yn gweithio mewn ffordd drefnus i ddiogelu plant, ac mewn rhai achosion, roedd gofynion cyfiawn am help a chefnogaeth am blant a phobl ifainc heb gael eu derbyn.

Roedd y diffyg gwasanaeth iechyd meddwl ac emosiynau yn rhwystr i gynllunio yn effeithiol; roedd rheolwyr achos wedi dysgu, gydag amser, y byddai atgyfeiriadau yn ddiwerth.

Roedd achos gyda pherson ifanc mewn gofal ac roedd ei droseddu wedi'i gysylltu â'i fabwysiadu yn methu a thrawma emosiynol wedi hynny. Ni ystyriwyd ac ni chafwyd barnau'r gweithiwr cymdeithasol, ac nid oedd cynllunio ar y cyd. Roedd yn hawdd cael gweld y gweithiwr cyffuriau ac alcohol. Nid oedd cynllun mewn lle wedi'i anelu at ymdrin â'i anghenion iechyd emosiynol sylweddol.

Roedd cynllunio i reoli a lleihau'r risg o niwed difrifol y gwanaf, ond yn ddigonol mewn chwarter o'r achosion. Gwnaed atgyfeiriadau i'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau yn aml, a gwnaed gwaith o ganlyniad. Roedd rheolwyr achos wedi camfarnu'r risg o niwed difrifol i eraill, felly roedd cynllunio wedi hynny heb weithredu penodol, yn cynnwys y rhain i amddiffyn dioddefwyr neu drefniadau wrth gefn.

Roedd cynllunio ar y cyd wedi'i ddigwydd mewn chwarter o achosion perthnasol. Roedd rhannu gwybodaeth yn amheus ac, mewn rhai achosion, rhoddwyd sicrwydd ffug i asiantaethau partneriaid.

Roedd un achos lle roedd ysgol y plentyn wedi'i hysbysu gan yr heddlu pan oedd e wedi'i arestio am lawrlwytho delweddau anweddus o blant. Ffoniodd yr ysgol i'r gwasanaeth bum mis yn ddiweddarach - tri mis ar ôl i'r gorchymyn atgyfeirio gael ei wneud - i ganfod beth oedd canlyniad yr achos llys. Roedd e wedi' asesu, yn anghywir, fel risg isel i blant, felly nid oedd cynllunio ar y cyd wedi'i ddigwydd ynghylch ei ddefnydd o'r we yn yr ysgol neu'r coleg yr oedd yn mynd iddo. Roedd y coleg wedi gweithredu ystod o fesurau diogelu yn seiliedig ar ei bolisïau ei hunain, nad oedd rhain wedi'u hysbysu gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

Roedd gwaith ymwybyddiaeth dioddefwyr yn aml wedi'i gynllunio, ond roedd dymuniadau a phryderon y dioddefwyr yn parhau, ar y cyfan, i beidio â chael eu hwynebu.

Gwnaeth yr arolygwyr arsylwi'r panel rheoli risg. Arweiniodd y panel yn dda a nodwyd pwyntiau gweithredu priodol, ond nid oeddem yn sicr bod y panel yn ystyried yr achosion iawn, oherwydd bod y risgiau wedi'u camfarnu.

2.3	**Gweithredu a darparu** Darperir gwasanaethau ansawdd-uchel, sylwgar, personal a threfnus, yn ymgysylltu ac yn cynorthwyo â'r plentyn neu'r person ifanc.	**Annigonol**

Roedd y rhaglen adeiladu sgiliau a'r cwrs DJ ymgysylltu cerddoriaeth (gweler isod) yn ymyriadau da a arweiniodd at gymwysterau a gwaith. Roedd rhain wedi'u datblygu mewn ymateb i ddiffyg tymor hir mewn mynediad at wasanaethau prif ffrwd.

Roedd ystod o raglenni ymddygiad troseddu ar gael ond roedd problemau yn cyflwyno rhain, weithiau oherwydd lefelau staffio. Cyflwynodd ymyriadau i leihau'r risg o niwed difrifol mewn fwy na thraean o achosion.

Roedd rheolwyr achos yn canolbwyntio'n gryf ar adeiladau cryfderau presennol plant a phobl ifainc, yn ffurfio perthnasau priodol a buddiol a thrwy sicrhau bod cydymffurfiaeth yn digwydd. Mae rhain yn feysydd lle mae gan staff raddau uchel o reolaeth. Pan oedd angen i blant a phobl ifainc gael ymyriadau a chefnogaeth gan asiantaethau partneriaid, daeth yn anodd i gyflawni amcanion.

Roedd gwaith partneriaeth yn y maes iechyd yn afreolaidd iawn ac yn gyfyng i gyngor iaith a lleferydd (gwasanaeth cyfyngedig iawn). Nid oedd y gwasanaeth iechyd rhywiol a'r sesiwn CAMHS misol am drafodaeth a chyngor ar gyfer staff yn ddigon i gwrdd â'r anghenion a nodwyd gennym yn yr achosion.

Gwnaethom nodi 12 o blant a phobl ifainc a oedd angen cefnogaeth iechyd meddwl; cafodd tri yn unig y gefnogaeth honno, a digwyddodd hynny pan oedd eu hanghenion yn ddifrifol ac ystyriwyd derbyniad ffurfiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd angen y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar ddau ddeg un o blant a phobl ifainc, a derbyniodd un deg chwech ohonynt y help hwn. Roedd staff y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau yn ymrwymedig at gael plant a phobl ifainc i gymryd rhan.

Roedd anghenion addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar un deg un o blant a phobl ifainc; derbyniodd saith ohonynt wasanaethau, roedd pob gwasanaeth ond un wedi'i ddarparu gan weithwyr ymyrryd y WBYJEIS.

Mae gweithwyr troseddau ieuenctid yn ymgymryd â gwaith o bwys (megis ymwybyddiaeth troseddau yn ymwneud â chyllyll) wedi'i anelu at blant a phobl ifainc i ddatblygu gwydnwch, huan-barch ac ymddwyn yn briodol. Er hynny, nid yw canlyniadau'r gweithgareddau hyn yn cael eu dadansoddi yn effeithiol i greu gwerthusiad o'u heffaith neu i hyrwyddo cynllunio gwelliant ansawdd ar lefel strategol. Ni chofnodir beth mae plant a phobl ifainc yn dysgu o'r rhaglenni hyn mewn ffordd a all helpu'r gwasanaeth i werthuso eu cynnydd.

Nid oes systemau effeithiol i fonitro'n hawdd cyfran y plant a phobl ifainc nad ydynt yn derbyn eu hawl i addysg, hyfforddinat a chyflogaeth (NEET), neu i fonitro'n glir y nifer ohonynt sy'n NEET. Mae dadansoddi annigonol am faint o amser y mae unigolion yn dod o dan y categori NEET. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei hadrodd i'r Bwrdd Rheoli i helpu dangos blaenoriaethau'r grŵp hwn; mae hyn yn atal cynllunio strategol rhag ddigwydd.

Mae'r ganolfan ymyrryd y gwasanaeth yn cynnig ystod eang o weithgareddau achrededig i blant a phobl ifainc i helpu datblygu sgiliau galwedigaethol a sgiliau bywyd. Mae gweithgareddau ymgysylltu yn effeithiol yn annog plant a'r bobl ifainc hyn i ddilyn achrediad, ac i lenwi bwlch pwysig lle mae unedau cyfeirio disgyblion yn methu â llenwi amser plant a'r bobl ifanc.

Mae'r rhaglen ymgysylltu gerddoriaeth y ganolfan wedi galluogi pedwar person ifanc i weithio fel DJs yn Ibiza. Mae nifer o blant a phobl bobl ifainc yn mynychu'r ganolfan i ddilyn Gwobrau Dug Caeredin - mae ychydig iawn o ysgolion yn cefnogi plant a phobl ifainc sy'n rhan o'r gwasanaeth i symud ymlaen o'r gwobrau efydd i'r lefelau uwch.

Mae rhaglen sgiliau adeiladu yn effeithiol iawn yn datblygu partneriaethau gydag ysgolion cymunedol, yn galluogi plant a phobl ifainc i fod yn rhan o'r broses adeiladu cyfleusterau arloesol a chreadigol ar gyfer disgyblion, megis cestyll a gerddi mwd. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi ymdrechion y plant a phobl ifainc ac yn ariannu'r prosiectau hyn o'u cyllidebau eu hunain.

Mae nifer o bobl ifainc ar y prosiect sgiliau diwydiant adeiladu wedi ymgymryd âgwobrau'r corff dyfarnu CymruAgoredCymrumewn iechyd a diogelwch a gwneud cynnydd i gael cardiau o'r cynllun ardysgio sgiliau adeiladu, sy'n gwella cyfleoedd gwaith.

Mae staff y gwasanaeth yn mynychu cyfarfodydd tîm mewn ychydig o ysgolion uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr ac yn darparu cefnogaeth ac ymyriad amserol i blant sydd ar risg o adael addysg. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhy newydd i werthuso pa mor effeithiol yr ydynt. Nid oes cynllun amlwg mewn lle i drefnu'r cyfarfodydd hyn ar gyfer ysgolion eraill.

Roedd darparu a gweithredu diogelwch a lles a'r ymyriadau risg o niwed difrifol yn annigonol. Roedd y darparu'r gwasnaeth wedi hyrwyddo diogelwch a lles mewn 10 o'r 27 achos lle yr oedd ei angen, a rhoddwyd gwasanaeth ar y cyd ond mewn traean o achosion perthnasol. Gweler effaith y diffyg gweithio ar y cyd yn yr enghraifft isod.

Roedd John yn 17 mlwydd oed ac roedd y risgiau yn gysylltiedig â'i ddiogelwch a'i les yn cynyddu. Trefnodd y rheolwr achos gyfarfod gweithwyr proffesiynol i drafod risgiau a pheryglon a oedd yn dwysáu. Gwnaethant wahodd staff o'i lety dros dro a'i weithiwr cymdeithasol. Cafodd y rheolwr achos alwad ffôn gan y darparwr llety, yn mynegi pryderon bod y gweithiwr cymdeithasol wedi trefnu cyfarfod risg ar gyfer yr un prynhawn ac felly gwnaeth wahodd y darparwr llety a gwasanaeth camddefnyddio sylweddau nad oedd wedi'u cysylltu â'r gwasanaeth troseddau ieuenctid.

Roedd y darpawr llety eisiau sicrhau mai dim ond un cyfarfod yn cynnwys yr holl ymarferwyr a aeth yn ei flaen. Roedd y gweithiwr cymdeithasol wedi penodi

gwasanaeth camddefnyddio sylweddau i ymgymryd â chynllun rheoli cyffuriau, yn dilyn gorddos damweiniol John. Ni thrafodwyd hyn gyda'r rheolwr achos neu'r gweithwyr camddefnyddio sylweddau, a oedd eisoed yn gweithio gyda fe i fynd i afael â'i broblem gyda chamddefnyddio sylweddau. Yn dilyn hyn, trefnwyd cyfarfod adolygu Plant sy'n derbyn gofal lle roedd y gwasanaeth yn bresennol ynddo ond nid oedd y gweithiwr cymdeithasol yn bresennol.

Cyflwynwyd ymyriadau wedi'u targedu at leihau'r risg o niwed mewn traean o achosion; gwnaeth rhain gynnwys mynediad at ymyriadau arbenigol ynghylch ymddygiad niweidiol rhywiol.

Nid oedd digon o sylw ar gyfer amddiffyn dioddefwyr a dioddefwyr posibl. Canfuom nifer o achosion lle dylai atgyfeiriadau wedi'u gwneud i ofal cymdeithasol am siblingiaid, cymheiriaid ac, mewn un achos, menyw fregus a oedd wedi dioddef o ymosodiad rhywiol.

Ni ystyriwyd anghenion plant a phobl ifainc sy'n siarad Cymraeg. Mae rhai siaradwyr Cymraeg yn meddwl yn Gymraeg ac yna cyfieithu eu meddyliau yn Saesneg, sy'n achosi problemau pan fo plant a phobl ifainc yn ceisio esbonio materion cymhleth, yn cynnwys eu hemosiynau, ac yn disgrifio'r broses o droseddau.

Mae gan y gwasanaeth a'i bartneriaid systemau cyfyngedig iawn i nodi'r ymyriadau a ddarperir a pha mor effeithiol yr ydynt.

2.4	**Adolygu** Mae adolygu cynnydd yn digwydd mewn modd gwybodus, dadansoddol a phersonol, yn cael y plentyn neu'r person ifan a'u rheini/gofalwyr i fod yn rhan weithredol o'r broses.	**Annigonol**

Mae'n hynod o bwysig i ail-asesu a oes gwybodaeth newydd sy'n dangos newid o ran troseddu, perygl neu risg o niwed i eraill. Gall rheolwyr herio prosesau, i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud a bod risgiau yn cael eu rheoli. Nid oedd adolygu wedi'i ddefnyddio fel cyfle i adlewyrchu ar gynnydd yr achos neu i newid gwaith. Roedd adolygu ymataliad yn effeithiol mewn mwy na hanner o'r achosion, a gwnaeth llai na thraean ddarparu adolygiad effeithiol o ddiogelwch a lles a risg o niwed difrifol.

Adroddodd rhai staff eu bod yn meddwl am yr achos yn barhaol, ond prin y trosglwyddyd hyn i adolygiad cofnodedig. Nid oedd newidiadau i gynlluniau wedi'u gwneud yn aml mewn ymateb i wybodaeth newydd, yn cynnwys troseddau newydd neu ymddygiad a oedd yn gwaethygu.

Cynhaliwyd paneli gorchmynion atgyfeirio i adolygu rhai achosion, a gwnaeth hyn roi cyfle da i ystyried cynnydd. Nododd un arolygydd:

"Wrth ystyried adolygu yn gyffredinol, mae'r broses yn ddigonol yn hyrwyddo ffactorau ymatal. Mae adolygu yn cael ei wneud drwy adroddiadau adolygu paneli atgyfeirio; er hynny, mae'n ddiddorol nodi nad yw hyn yn cael ei ffurfio drwy adolygu AssetPlus."

Gwnaethom sylwi ar adolygiad rheoli achosion gwell - mae hyn yn fenter genedlaethol newydd wedi'i chynllunio i reoli achosion mwy gymhleth. Mae'r adolygiad hwn yn dod â gweithwyr proffesiynol allweddol gyda'i gilydd i rannu profiadau am y dulliau gorau o waith ymyrryd ac yn rhoi safbwynt seicolegol am ymddygiad troseddu. Mae rheolwyr achos hefyd wedi elwa o hyfforddiant yn Profiadau niweidiol mewn plentyndod (ACE's), a sut mae rhain yn cael effaith ar y meddwl a'r ymddygiad plant a phobl ifainc. Mae'r dull hwn at weithio yn fwya effeithiol pan fo'r dealltwriaeth yn cael ei rhannu ar draws asiantaethau. Mae rhain yn fentrau cadarnhaol a ddylai brofi, pan atodir, bod yn fanteisiol wrth ddeall a gweithio gyda phlant a phobl ifainc, sy'n ei weld yn anodd i ymatal rhag droseddu.

Crynodeb – Penderfyniadau'r Llys

Cryfderau:

- Mae ffocws cryf ar ymatal rhag droseddu ac ar adeiladau cryfderau presennol plant a phobl ifainc.
- Mae ystod eang o ymyriadau ar gael i gefnogi ataliad.
- Mae'r rhaglen adeiladu sgiliau a'r gweithdai cerddoriaeth yn darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth.

Meysydd i'w gwella:

- Mae'r asesu, cynllunio a darparu'r gwasanaethau i fynd i afael â diogelwch a lles a'r risg o niwed difrifol yn annigonol.
- Nid yw'r anghenion a'r diogelwch dioddefwyr yn cael digon o ffocws.
- Mae diogelwch a lles a'r risg o niwed difrifol yn cael eu camfarnu yn gyffredinol.
- Mae diffyg gwaith ar y cyd gyda gofal cymdeithasol plant a phobl ifainc.
- Mae gwasanaethau iechyd yn brin iawn i gwrdd â'r anghenion corfforol, rhywiol, emosiynol a'r iechyd meddwl plant a phobl ifainc.

3. Gwarediadau tu allan i'r llys

Bydd gwaith gyda phlant a phobl ifainc a dderbynnir gwarediadau tu allan i'r llys yn fwy effeithiol os bydd yn cael ei dargedu, ei gynllunio a'i weithredu yn dda. Yn ein harolygiadau, rydym yn edrych ar sampl o achosion. Ym mhob un o'r achosion hyn, rydym yn arolygu yn erbyn pedair safon.

3.1	**Asesu** Mae asesu yn digwydd mewn modd gwybodus, dadansoddol a phersonol, yn cael y plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr i fod yn rhan weithredol o'r broses.	**Da**

Mae'r cynllun gwarediad tu allan i'r llys, a adwaenir fel 'y bureau', yn sefydlog iawn. Mae'r cynllun wedi bod mewn grym ers ryw 10 mlynedd, ac mae agweddau ohono wedi'u defnyddio ar gyfer hysbysu cyfarwyddyd cenedlaethol. Mae'r cynllun yn cael ei

reoli yn dda ac mae wedi gwneud cyfraniad sylweddol at gostwng y nifer o newydd-ddyfodiaid i'r system cyfiawnder troseddol.

Edrychom ar y prosesau ar gyfer gwarediadau tu allan i'r llys. Mae achosion yn cael eu atgyfeirio at y bureau, sef panel yn cynnwys cynrychiolwyr o'r adran ymyrryd yn gynnar y gwasanaeth, yr heddlu a gwirfoddolwr annibynnol wedi ei gymeradwyo. Mae'r ystod llawn o ganlyniadau ar gael i'r panel, a gall y canlyniadau hyn amrywio o ddim gweithredu pellach i gyhuddo unigolyn. Mae cynrychiolwyr y panel yn gyson, ac mae'r broses yn hyrwyddo ymyriadau unigol a diogelu ehangach, yn gwella'r posibiliad o gostwng y nifer o newydd-ddyfodiaid o fewn Bae'r Gorllewin.

Mae'r ymgysylltu â dioddefwyr yn dda, ac mae swyddogion dioddefwyr yn cadarnhau anghenion a dymuniadau unigol. Mae cynigion priodol, megis y dull cyfiawnder adferol, yn cael eu gwneud i gwrdd ag anghenion a dymuniadau dioddefwyr, ond nid yw rhain yn cael eu dilyn bob amser gan reolwyr achos.

Mae'r asesu o ymatal a'r risg o niwed difrifol yn dda iawn. Mae'r asesiadau hyn naill ai yn cael eu cwblhau trwy declyn sgrinio neu drwy AssetPlus, os yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi bod i'r bureau yn y 12 mis diwethaf. Mae'r system hon yn gweithio'n dda yn nodi ffactorau troseddu a ffactorau risg.

Mae rheolwyr achos yn gweithio'n galed i gynnwys rhieni/gofalwyr a phlant a phobl ifainc yn yr asesiad. Trafodir eu barnau ac mae'r barnau yn cael blaenoriaeth ochr yn ochr â'r asesiadau proffesiynol.

Mae ystyriaeth ofalus o'r plentyn neu'r person ifanc yn derbyn y trosedd, yn seiliedig ar y trafodaethau manwl gyda nhw a'u rhieni. Asesir cryfderau'r plentyn neu'r person ifanc a'r ffactorau amddifyn a chymhelliad yn dda, ac maent yn ffurfio sylfaen gyngor i'r panel bureau a'r adroddiad y panel.

Gwnaeth yr arolygydd y sylw hwn mewn un achos: "Mae'r asesiad yn nodi bod y person ifanc wedi diflasu ac mae'n teimlo'n rhwystredig nad yw e wedi gallu ymuno â'r fyddin oherwydd iddo fethu'r prawf mathemateg. Mae ef yn mynd i ganolfan hyfforddi'r fyddin yn wirfoddol. Mae'r asesu wedi nodi bod angen i'w gefnogi er mwyn iddo gael cymhwyster mathemateg."

Nid yw'r asesu diogelwch a lles yn digwydd mor dda â hynny, ac mae'n cael ei effeithio gan yr un materion a ganfuom mewn achosion wedi bod yn y llys. Roedd peryglon y plentyn neu'r person wedi'u camfarnu mewn un o bump o'r asesiadau.

3.2	**Cynllunio** Mae cynllunio yn digwydd mewn modd gwybodus, cyfannol a phersonol, yn cael y plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr i fod yn rhan weithredol o'r broses.	**Angen gwella**

Mae'r cynllunio ar gyfer ymatal yn dda iawn. Mae'r broses bureau yn cynnwys rhieni/gofalwyr, plant a phobl ifainc, dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol mewn sgwrs gynhwysol a chynhwysfawr. Mae'r broses hon yn nodi ac yn cynllunio am ymyriadau perthnasol. Mae plant a phobl ifainc yn cael eu hannog i gydymffurfio gyda'r ymyriadau, yn creu sylfaen gadarn iddynt ymgysylltu â hi yn wirfoddol.

Mae ymyriadau yn cael eu cynllunio yn dda a gallent gael eu cwblhau mewn amserlenni priodol.

Mae'r cynllunio yn cynnwys asiantaethau eraill pan fo angen, ond nid oes gan bob cynllun gamau gweithredu priodol i ddiogelu dioddefwyr.

Mae angen gwella'r broses gynllunio am ddiogelwch a lles i ryw graddau, oherwydd nad yw'n cynnwys yr holl ffactorau a nodir, ac anaml iawn mae'n cynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer newidiadau disgwyliedig. Canfuom fod rheolwyr achos wedi wynebu rhai problemau oherwydd ni chefnogwyd nhw bob amser gan ofal cymdeithasol plant, fel a ddengys sylwadau'r arolygydd mewn un achos.

"Mae risg parhaus y byddai'n cael ei esgeuluso gan ei fam. Mae gwasanaethau plant wedi cynnal asesiad; er hynny, mae'r achos wedi'i gau oherwydd i'r fam benderfynu i beidio ag ymgysylltu â'r gwasanaeth. Nid oes cynllunio am y posibiliad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd."

Yn yr achos hwn, roedd yn lan i'r gwasanaeth a'r heddlu i geisio ymdrin â materion a ddylai wedi cael eu hwynebu gan y gwasanaeth gofal cymdeithasol.

3.3	**Gweithredu a darparu** Darperir gwasanaethau ansawdd-uchel, sylwgar, personal a threfnus, yn ymgysylltu ac yn cynorthwyo â'r plentyn neu'r person ifanc.	**Annigonol**

Mae darparu'r gwasanaeth i gefnogi pellter o droseddu yn gryf. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar fagu hunan-barch, datblygu sgiliau ymdopi ac yn gwneud penderfyniadau gwell.

Serch hynny, mae'r gwaith o gadw plant a phobl ifainc yn ddiogel yn annigonol. Er gwaethaf ymdrechion gan staff gwasanaethau, mae gwaith partneriaeth gwael gyda gofal iechyd a chymdeithasol yn golygu bod rhai plant a phobl ifainc dal heb yr amddiffyniad a'r gefnogaeth y mae eu hangen. Darparwyd y gefnogaeth iawn ond mewn hanner o'r achosion lle yr oedd angen.

Mewn un achos, honodd plentyn fod aelod o staff yr ysgol wedi ymosod arno; cafodd ei amddiffyn yn syth drwy gael ei gyfarwyddo i beidio â mynd yn ôl i'r ysgol. Cymerodd hi fis i ofal cymdeithasol plant ymweld â'r ysgol a siarad â disgyblion eraill i benderfynu a oeddynt yn ddiogel.

Mewn achos arall, gwnaeth y rheolwr achos dri atgyfeiriad i ofal cymdeithasol ond roedd yr achos ond wedi'i godi pan atgyfnerthodd hi'r achos i'r gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol; er hynny, roedd y mwyafrif o'r gwaith wedi'i gwblhau gan y gwasanaeth.

O'r achosion a wnaethom asesu cyn bod yn y llys ac ar ôl bod yn y llys, roedd gwaith y gwasanaeth wedi'i arafu gan ddiffyg gwaith partneriaeth effeithiol gyda'r holl asiantaethau, ac eithrio'r heddlu.

3.4	**Cydweithio** Mae'r gwaith ar y cyd gyda'r heddlu yn cefnogi darparu gwasanath ansawdd-uchel, personol a threfnus.	**Rhagorol**

Mae cynllun gwarediad tu alan i'r llys sefydlog mewn lle. Gydag amser, mae'r perthnasau proffesiynol rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau wedi'u haeddfedu. Mae'r heddlu a'r YOS yn gallu herio barnau a phenderfyniadau. Dengys data a ddarperir gan y rheolwyr cynllun fod cyfradd lwyddo y bureau yn 90 y cant.

Roedd yr argymhellion a gytunwyd rhwng yr heddlu a'r gwasanaeth yn briodol ac yn gymesur i'r achos yn yr holl achosion a aseswyd gennym.

Mae deallusrwydd a ddelir ar systemau heddlu lleol yn cael eu gwirio yn ddyddiol a'i gyflwyno yn uniongyrchol i'r gwasanaeth ymyrryd yn gynnar. Mae hyn yn cynnwys arestiadau dros nos, cyfweliadau gwirfoddol, deallusrwydd a digwyddiadau perthnasol eraill. Cynhelir cyfarfodydd briffio tîm yn aml. Mae deallusrwydd a gwybodaeth hefyd yn cael eu hymchwilio a'u cyflwyno i reolwyr achos fel y bo'n ofynnol.

Er hynny, nid oes system llumanu effeithiol mewn lle i nodi pan oedd plentyn neu berson ifanc yn cael ei reoli gan y gwasanaeth wedi dod i sylw yr heddlu; mae hyn yn ddibynnol ar wybodaeth y swyddogion heddlu wedi'u secondio. Mae 'na bosibiliad y bydd deallusrwydd allweddol yn mynd yn goll. Gall hyn arwain at reolwyr achos ddim bob amser yn cael gwybodaeth heddlu gyfredol wrth wneud penderfyniadau ynghylch plant a phobl ifainc.

Crynodeb – Gwarediadau tu allan i'r llys

Cryfderau:

- Mae cynllun sefydlog mewn lle, yn arwain at benderfyniadau yn cael eu gwneud yn briodol.
- Mae'r ymgysylltu â rheini a phlant yn ardderchog ac mae'n hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau yn y bureau.
- Mae nifer o ymyriadau ar gael i geisio atal troseddu pellach.

Meysydd i'w gwella:

- Nid yw'r gwaith yn ymdrin â materion diogelwch a lles mor gryf â'r gwaith ymatal a'r risg o niwed.
- Mae'r diffyg gwaith ar y cyd a'r gefnogaeth gan ofal cymdeithasol plant a gofal cymdeithasol iechyd yn golygu bod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ceisio llenwi'r bylchau yn darparu'r gwasanaeth.

ATODIAD 1 - Methodoleg

Gweler isod crynodeb o'r fethodoleg arolygu, wedi'i chysylltu â'r tri maes o fewn ein fframwaith safonau. Ein ffocws oedd ar gael tystiolaeth yn erbyn y safonau, cwestiynau allweddol a'r awgrymiadau o fewn y fframwaith.

Maes Un: Dulliau gweithredu'r sefydliad

Cyflwynodd y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid dystiolaeth ymlaen llaw ac roedd cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd Rheoli YOS yn cynnwys y meysydd dilynol:

Sut mae trefniadau gweithredu'r sefydliad yn y maes hwn yn sicrhau bod gwaith eich YOS mor effeithiol ag sy'n bosibl, a bod y cyfleoedd bywyd o'r plant a phobl ifainc sydd wedi'u troseddu yn well?

Beth yw eich blaenoriaethau am wella'r trefniadau hyn yn bellach?

Yn ystod y prif gyfnod gwaith maes, gwnaethom arolygu 12 rheolwr achos unigol, yn gofyn iddynt am eu profiadau o hyfforddiant, datblygiad, goruchwyliaeth rheoli ac arweinyddiaeth. Mae'r ail wythnos o waith maes yn elfen ar y cyd o'r arolygiad. Roedd Arolygiaeth Prawf EM yn gweithio ar y cyd gydag arolygyddion o'r sectorau heddlu, iechyd, gofal cymdeithasol ac addys. Gwnaethom archwilio'r llinellau ymholi a ddaeth i'r golwg o'r arolygiadau achosion. Cynhaliwyd cyfarfodydd a grwpiau ffocws gwahanol wedyn, yn ein galluogi ni i rannu tystiolaeth a gwybodaeth yn drionglau. Ymysg y rhain, roedd cyfarfod gyda Bwrdd Rheoli'r YOS a'i Gadeirydd, cyfweliadau gydag ystod eang o staff a reolwyr, gweithwyr a rheolwyr partneriaeth. Ymwelon ni â dwy o'r thair swyddfa a ddefnyddiwyd gan y YOS. Gwnaethom gyfweld â dau o'r tri chyfarwyddwr gofal cymdeithasol plant a dau o'r tri prif weithredwr yr awdurdod lleol.

Maes Dau: Penderfyniadau'r Llys

Cwblhasom asesiadau achosion dros gyfnod o wythnos, yn archwilio ffeiliau achosion a chyfweld â rheolwyr achos. Roedd chwe deg y cant o'r achosion a ddewiswyd yn rhai plant a phobl ifainc a oedd wedi derbyn penderfyniadau llys chwech i naw mis yn gynharach, yn ein galluogi i archwilio'r gwaith yn gysylltiedig ag asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu. Lle y bo angen, cynhaliwyd cyfweliadau gyda phobl eraill a oedd â rhan fawr yn yr achos. Mewn rhai achosion unigol, gwnaethpwyd ymholiadau pellach yn ystod yr ail wythnos o waith maes gan arolygwyr cydweithwyr o wasanaethau'r heddlu, iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg.

Archwiliom 31 achos ar ôl bod yn y llys. Roedd y maint sampl wedi'i osod i gyflawni lefel hyder o 80 y cant (gyda lwfans gwallau o 5), a gwnaethom sicrhau fod y cymarebau yn gysylltiedig â chategorïau rhyw, dedfryd neu fath o benderfyniad y llys, risg o niwed difrifol, a'r risg diogelwch a lles yn cyd-fynd â'r rhain yn y boblogaeth gymwys.

Maes Tri: Gwarediadau tu allan i'r llys

Cwblhasom asesiadau achosion dros gyfnod o wythnos, yn archwilio ffeiliau achosion a chyfweld â rheolwyr achos. Roedd pedwar deg y cant o achosion a ddewiswyd yn

rhai plant a phobl ifainc a oedd wedi derbyn gwarediadau tu allan i'r llys dri i naw mis yn gynharach. Gwnaeth hyn ein halluogi i archwilio gwaith ynghylch asesu, cynllunio, gweithredu a gweithio ar y cyd. Lle y bo angen, cynhaliwyd cyfweliadau gyda phobl eraill a oedd â rhan fawr yn yr achos. Mewn rhai achosion unigol, gwnaethpwyd ymholiadau pellach yn ystod yr ail wythnos o waith maes gan arolygwyr cydweithwyr o wasanaethau'r heddlu, iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg.

Archwiliom 20 gwarediad tu allan i'r llys. Roedd y maint sampl wedi'i osod i gyflawni lefel hyder o 80 y cant (gyda lwfans gwallau o 5), a gwnaethom sicrhau fod y cymarebau yn gysylltiedig â chategorïau rhyw, dedfryd neu fath o benderfyniad y llys, risg o niwed difrifol, a'r risg diogelwch a lles yn cyd-fynd â'r rhain yn y boblogaeth gymwys.

ATODIAD 2 – Canlyniadau'r arolygiad

1. Dulliau gweithredu'r sefydliad

Safonau a chwestiynau allweddol	Graddau
1.1. **Llywodraethu ac Arwain** Mae'r llywodraethu ac arweinyddiaeth y YOT yn cefnogi ac yn hyrwyddo darpariaeth o wasanaeth ansawdd-uchel, personol sy'n ymateb i'r holl blant a phobl ifainc.	**Annigonol**
1.1.1. A oes gweledigaeth a strategaeth glir a lleol ar gyfer darparu gwasanaeth ansawdd-uchel, personol sy'n ymateb i'r holl blant a phobl ifainc?	
1.1.2. A yw'r trefniadau partneriaeth yn cefnogi darparu'r gwasanaeth yn effeithiol?	
1.1.3. A yw arweinyddiaeth y YOT yn cefnogi darparu'r gwasanaeth yn effeithiol?	
1.2. **Staff** Mae staff o fewn y YOT gydag awdurdod i ddarparu gwasanaeth ansawdd-uchel, personol sy'n ymateb i'r holl blant a phobl ifainc.	**Annigonol**
1.2.1. A yw'r lefelau staffio a llwyth gwaith yn cefnogi darpariaeth o wasanaeth ansawdd-uchel, personol sy'n ymateb i'r holl blant a phobl ifainc?	
1.2.2. A yw'r sgiliau gan y staff YOT yn cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaeth ansawdd-uchel, personol sy'n ymateb i'r holl blant a phobl ifainc?	
1.2.3. A yw'r goruchwyliaeth o waith yn cefnogi darpariaeth ansawdd-uchel a datblygiad proffesiynol?	
1.2.4. A yw'r trefniadau ar gyfer dysgu a datblygu yn gynhwysfawr ac yn atebol?	
1.3. **Gwasanaethau a phartneriaethau** Mae ystod eang o wasanaethau ansawdd-uchel mewn lle, yn galluogi darpariaeth bersonol sy'n ymateb i'r holl blant a phobl ifainc.	**Annigonol**
1.3.1. A oes dadansoddiad sy'n ddigon cynhwysfawr a chyfredol o'r proffil plant a phobl ifainc, i sicrhau bod y YOT yn gallu darparu gwasanaethau wedi'u teilwra yn iawn?	
1.3.2. A oes gan y partneriaeth YOT fynediad i'r nifer, ystod a'r ansawdd o wasanaethau ac ymyriadau sydd ar gael i gwrdd ag anghenion yr holl blant a phobl ifainc?	
1.3.3. A yw trefniadau gyda phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill wedi'u sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio yn effeithiol i ddarparu gwasanaethau ansawdd-uchel?	
1.4. **Gwybodaeth a chyfleusterau** Mae gwybodaeth amserol a'r perthnasol ar gael ac mae cyfleusterau priodol mewn lle i gefnogi dull ansawdd-uchel, person sy'n ymateb i'r holl blant a phobl ifainc.	**Annigonol**
1.4.1. A yw'r polisïau a chyfarwyddyd angenrheidiol mewn lle i alluogi'r staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd, yn cwrdd ag anghenion yr holl blant a phobl ifainc?	
1.4.2. A yw'r awyrgylch gwaith y YOT yn cwrdd ag anghenion yr holl blant a phobl ifainc a galluogi'r staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd?	

1.4.3.	A yw'r systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (ICT) yn galluogi'r staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd, yn cwrdd ag anghenion yr holl blant a phobl ifainc?
1.4.4.	A yw dadansoddi, tystiolaeth a dysgu yn cael eu defnyddio yn effeithiol i ysgogi gwelliant?

2. Penderfyniadau'r Llys

Safonau a chwestiynau allweddol	**% ydy**	**Graddau**
2.1. **Asesu** Mae asesu yn digwydd mewn modd gwybodus, dadansoddol a phersonol, yn cael y plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr i fod yn rhan weithredol o'r broses.	**Gradd: Annigonol**	
2.1.1. A yw asesu yn dadansoddi yn ddigon ar sut i gefnogi ymataliad y plentyn neu'r person ifanc?	65%	
2.1.2. A yw asesu yn dadansoddi yn ddigon ar sut i gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel?	42%	
2.1.3. A yw asesu yn dadansoddi yn ddigon ar sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	37%	
2.2. **Cynllunio** Mae cynllunio yn digwydd mewn modd gwybodus, cyfannol a phersonol, yn cael y plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr i fod yn rhan weithredol o'r broses.	**Gradd: Annigonol**	
2.2.1. A yw cynllunio yn canolbwyntio yn ddigon ar gefnogi ymataliad y plentyn neu'r person ifanc?	74%	
2.2.2. A yw cynllunio yn canolbwyntio yn ddigon ar gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel?	41%	
2.2.3. A yw cynllunio yn canolbwyntio yn ddigon ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	25%	
2.3. **Gweithredu a darparu** Darperir gwasanaethau ansawdd-uchel, sylwgar, personal a threfnus, yn ymgysylltu ac yn cynorthwyo â'r plentyn neu'r person ifanc.	**Gradd: Annigonol**	
2.3.1. A yw'r gweithredu a darparu'r gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn neu'r person ifanc yn effeithiol?	55%	
2.3.2. A yw'r gweithredu a darparu'r gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn neu'r person ifanc yn effeithiol?	41%	
2.3.3. A yw'r gweithredu a darparu'r gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	38%	

Safonau a chwestiynau allweddol	% ydy	Graddau
2.4. **Adolygu** Mae adolygu cynnydd yn digwydd mewn modd gwybodus, dadansoddol a phersonol, yn cael y plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr i fod yn rhan weithredol o'r broses.	**Gradd: Annigonol**	
2.4.1. A yw adolygu yn canolbwyntio yn ddigon ar gefnogi ymataliad y plentyn neu'r person ifanc?	52%	
2.4.2. A yw adolygu yn canolbwyntio yn ddigon ar gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel?	29%	
2.4.3. A yw adolygu yn canolbwyntio yn ddigon ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	32%	

3. Gwarediadau tu allan i'r llys

Safonau a chwestiynau allweddol	% ydy	Graddau
3.1. **Asesu** Mae asesu yn digwydd mewn modd gwybodus, dadansoddol a phersonol, yn cael y plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr i fod yn rhan weithredol o'r broses.	**Gradd: Da**	
3.1.1. A yw asesu yn dadansoddi yn ddigon ar sut i gefnogi ymataliad y plentyn neu'r person ifanc?	85%	
3.1.2. A yw asesu yn dadansoddi yn ddigon ar sut i gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel?	65%	
3.1.3. A yw asesu yn dadansoddi yn ddigon ar sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	80%	
3.2. **Cynllunio** Mae cynllunio yn digwydd mewn modd gwybodus, cyfannol a phersonol, yn cael y plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr i fod yn rhan weithredol o'r broses.	**Gradd: Angen gwella**	
3.2.1. A yw cynllunio yn canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn neu'r person ifanc?	89%	
3.2.2. A yw cynllunio yn canolbwyntio yn ddigon ar gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel?	64%	
3.2.3. A yw cynllunio yn canolbwyntio yn ddigon ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	71%	
3.3. **Gweithredu a darparu** Darperir gwasanaethau ansawdd-uchel, sylwgar,	**Gradd:**	

Safonau a chwestiynau allweddol		% ydy	Graddau
personal a threfnus, yn ymgysylltu ac yn cynorthwyo â'r plentyn neu'r person ifanc.		**Annigonol***	
3.3.1.	A yw'r darpariaeth o wasanaeth yn cefnogi ymataliad y plentyn neu'r person ifanc?	81%	
3.3.2.	A yw'r darpariaeth o wasanaeth yn cefnogi diogelwch y plentyn neu'r person ifanc yn effeithiol?	50%	
3.3.3.	A yw'r darpariaeth o wasanaeth yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	67%	
3.4. **Gweithio ar y cyd** Mae'r gwaith ar y cyd gyda'r heddlu yn cefnogi darparu gwasanaeth ansawdd-uchel, personal a threfnus.		**Gradd: Rhagorol**	
3.4.1.	A yw argymhellion y YOT yn digwydd mewn modd digon gwybodus, dadansoddol a phersonol i'r plentyn neu'r person ifanc, yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar y cyd?	95%	
3.4.2.	A yw'r TTI yn gweithio gyda'r heddlu yn effeithiol yn gweithredu'r gwarediad tu allan i'r llys?	80%	

* Cyflawnwyd doethineb proffesiynol o dan 3.3 oherwydd achosion yr oedd yn agos i'r ffin raddio. Roedd y perfformiad cyffredinol ar gyfer gweithredu a darparu felly wedi'i raddio yn annigonol.

ATODIAD 3 – Geirfa

Profiadau niweidiol mewn plentyndod	Mae profiadau niweidiol mewn plentyndod (ACEs) yn ddigwyddiadau trawmatig sydd yn effeithio ar blant wrth iddynt dyfu i fyny, fel dioddef camdriniaeth fel plentyn neu fyw mewn cartref wedi ei effeithio gan drais domestig, camddefnyddio sylweddau neu salwch meddwl.
AssetPlus Asset+	Fframwaith asesu a chynllunio a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer gwath gyda phlant a phobl ifainc sydd wedi'u troseddu, neu mewn risg o droseddu, sy'n adlewyrchu ymchwil a dealltwriaeth gyfredol o'r hyn sy'n gweithio gyda phlant
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
Datrysiad cymunedol (adwaenir ym Mae'r Gorllewin fel penderfyniad adferol ieuenctid)	Yn cael ei ddefnyddio mewn troseddau lefel isel, yn aml am y tro cyntaf, lle ceir cytundeb anffurfiol, yn aml hefyd yn cynnwys y dioddefwr, am sut y dylid datrys y drosedd. Mae datrysiad cymunedol yn derm generig; yn ymarferol, mae sawl term lleol gwahanol yn cael ei ddefnyddio yn golygu'r un peth. Ym Mae'r Gorllewin, mae datrysiad cymunedol yn cael ei adnabod fel penderfyniad adferol ieuenctid
Penderfyniadau'r Llys	Y ddedfryd a roir gan y llys. Mae enghreifftiau o benderfyniadau llys ieuenctid yn cynnwys gorchmynion atgyfeirio, gorchmynion adsefydlu ieuenctid a gorchmynion cadw a hyfforddi
CP	Diogelu Plant: Gwaith i sicrhau bod pob cam gweithredu rhesymol wedi'i gymryd i leihau'r risg o blentyn yn dod i niwed difrifol
CSE a CE	Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fath o gamdrin plant, mae'n digwydd pan mae plentyn neu berson ifanc yn cael ei annog neu ei orfodi i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol yn ymwneud â chyfnewid o fath, er enghraifft, anrhegion, cyffuriau, alcohol neu sylw emosiynol. Ecsbloetio troseddol: mae'n digwydd pan mae plentyn neu berson ifanc yn cael ei ecsbloetio

	neu ei orfodi i gyflawni troseddau
Ymatal	Terfyn ar droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol arall
Gorfodi	Gweithrediad a gymerir gan reolwr achos mewn ymateb i blentyn neu berson ifanc yn methu â chydymffurfio â'r gweithrediadau a nodir fel rhan o ddedfryd neu drwydded gymunedol. Gall y broses gorfodi fod yn gosbol neu yn ysgogiadol
ETE	Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwaith i wella dysgu, ac i wella cyfleoedd gwaith am y dyfodol
FTE	Newydd-ddyfodiaid: plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn canlyniad cyfiawnder troseddol statudol (rhybuddiad ieuenctid, rhybuddiad amodol ieuenctid neu euogfarn) am y tro cyntaf
HMIP	Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
HMPPS	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM: adran lywodraeth sy'n gyfrifol am gyflawni dedfrydau a roir gan y llysoedd, yn y ddalfa a'r gymuned.
LA	Awdurdod lleol: Mae YOTs yn aml yn dîm o fewn awdurdod lleol penodol
MAPPA	Trefniadau amlasiantaeth diogelu'r cyhoedd: lle mae'r gwasanaeth prawf, heddlu, carchar ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr â'r risg uchaf o niwed i eraill
NEET	Plant neu bobl ifainc nad yw mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.
Gwarediad tu allan i'r llys (OOCD)	Datrysiad trosedd lefel isel fel arfer, lle nad yw er lles y cyhoedd i erlyn, drwy ddatrysiad cymunedol, rhybuddiad ieuenctid neu rybuddiad amodol ieuenctid
Personoledig	Mae dull personoledig yn un lle mae gwasanaethau yn cael eu teilwra i gwrdd ag anghenion unigolion, yn rhoi cymaint o ddewis a rheolaeth ag sy'n bosibl i bobl dros y gefnogaeth y maent yn eu derbyn. Rydym yn defnyddio'r term hwn i gynnwys ffactorau amrywiaeth
Risg o Niwed Difrifol	Mae Risg o Niwed Difrifol yn derm a ddefnyddir yn AssetPlus. Mae pob achos yn cael ei ddosbarthu naill ai fel lefel isel/canolig/uchel/uchel iawn o'r risg o niwed difrifol i eraill. Defnyddir y term hwn gan Arolygiaeth Prawf EM wrth gyfeirio i'r system ddosbarthu, ond defnyddir y term ehangach

	'risg o niwed' wrth gyfeirio i'r dadansoddiad a ddylai ddigwydd er mwyn cadarnhau'r lefel dosbarthu. Mae hyn yn helpu egluro'r gwahaniaeth rhwng y posibiliad o ddigwyddiad yn cymryd lle a'r effaith y digwyddiad. Mae'r term 'Risg o Niwed Difrifol' ond yn ymgorffori effaith 'difrifol', lle mae'r term 'risg o niwed' yn meddwl bod y sylw sydd ei angen yn cael ei roi i'r troseddwyr ifanc hynny sy'n fwy tebygol i ddangos ymddygiad effaith isel/llai difrifol
RO	Gorchymyn atgyfeirio: gorchymyn llys adferol a all gael ei roi pan mae'r plentyn neu'r person sy'n ymddangos mewn llys yn pledio'n euog, a lle nad yw'r trothwy yn diwallu â gorchymyn adsefydlu ieuenctid
Diogelu	Term ehangach na Diogelu Plant ac mae'n cynnwys hyrwyddo iechyd a datblygiad y plentyn neu'r person ifanc ac yn sicrhau bod eu anghenion lles cyffredinol yn cael eu cwrdd
Diogelwch a lles	Gwnaeth AssetPlus ddisodli'r broses asesu peryglon gyda'r asesu o ddiogelwch a phryderon lles y plentyn neu'r person ifanc yn digwydd mewn modd cyfannol. Mae'n cael ei ddiffinio fel: "y canlyniadau hynny lle gallai diogelwch a lles y person ifanc gael ei gyfaddawdu gan eu hymddygiad a'u hamgylchiad personol eu hunain, neu oherwydd gweithredoedd/diffygion eraill" (*Cyfarwyddyd AssetPlus*, 2016)
YC	Rhybuddiad ieuenctid: rhybuddiad a dderbynnir gan blentyn neu berson ifanc yn dilyn cyfaddefiad ei fod wedi troseddu lle nad yw'n cael ei ystyried bod er lles y cyhoedd i gosbi'r troseddwr
YCC	Rhybuddiad amodol ieuenctid: Yn debyg i rybuddiad ieuenctid, ond gydag amodau'n gysylltiedig y disgwylir i'r plentyn neu'r person ifanc gydymffurfio â nhw am hyd at y tri mis nesaf. Gall gwrthod cydymffurfio â'r amodau o bosibl yn golygu y bydd y plentyn yn cael ei erlyn am y drosedd wreiddiol
YOT/YOS	Tîm Troseddau Ieuenctid: y term a ddefnyddir yn *Neddf Trosedd ac Anrhefn 1998* i ddisgrifio tîm aml asiantaeth â'r nod o leihau troseddau ieuenctid. Mae timau troseddau ieuenctid (YOTs) yn cael eu hadnabod yn lleol gan sawl teitl, megis y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid (YJS), y gwasanaeth troseddau ieuenctid (YOS) a theitlau generig eraill a all ddangos eu rôl ehangach yn yr ardal leol yn

	darparu gwasanaethau i blant
Bwrdd Rheoli'r YOT	Mae'r Bwrdd Rheoli'r YOT yn gwneud y YOT yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cyflawni'r prif nod o atal plant a phobl ifainc rhag troseddu.
YRO	Gorchymyn Ailsefydlu Ieuenctid: dedfryd gymunedol drosfwaol lle mae'r llys yn gosod gofynion (e.e. gofyn goruchwyliaeth, gwaith di-dal, ayyb)
YJB	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid: corff llywodraeth sy'n gyfrifol am fonitro a chynghori gweinidogion am effeithiolrwdd y system gyfiawnder ieuenctid. Darparu grantiau a chyfarwyddyd i'r timau troseddau ieuenctid.
YJB Cymru	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru: corff llywodraeth sy'n gyfrifol am fonitro a chynghori Llywodraeth Cymru am effeithiolrwydd y system gyfiawnder ieuenctid.



HM Inspectorate of Probation
1 Bridge Street West
Civil Justice Centre
Manchester
M3 3FX

978-1-84099-853-5